*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU DDYDD LLUN 15 MAWRTH 2021 dros Zoom. Y cyfarfod i ddechrau am 9.30am.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

# AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordeb**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 9 Tachwedd 2020**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad y Cadeirydd (adroddiad ar lafar)**

7. **Diweddariad COVID-19 (adroddiad ar lafar)**

8. **Y Cynllun Gwella a Llesiant 2021/22**

9. **Archwiliadau Diogel ac Iach**

10. **Alldro Amcanol 2020/21**

11. **Y Diweddaraf am Gyllideb 2021/22**

12. **Strategaeth Gyfalaf 2021/22 – 2023/24**

13. **Datganiad ar Bolisi Tâl 2021/22**

14. **Strategaeth Cronfeydd Ariannol wrth gefn**

## 15. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

## 16. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 2 uchod.

## RHAN II

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

## 17. Y Broses Benodi i swydd y Prif Swyddog Tân

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Mawrth 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cynllun Corfforaethol 2021-24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r fersiwn drafft terfynol o Gynllun Corfforaethol 2021-24.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi amcanion gwella a llesiant, a bod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny.

3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r fersiwn drafft terfynol o Gynllun Corfforaethol 2021-24 er mwyn i'r Aelodau ei gymeradwyo. Cafodd yr amcanion yn y cynllun eu diwygio a'u helaethu yn dilyn adborth gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**ARGYMHELLION**

4 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r drafft terfynol o Gynllun Corfforaethol 2021-24, i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd mis Mawrth 2021.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL**

5 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen. Fodd bynnag, yng nghyfarfod yr ATA ym mis Tachwedd 2020, cytunodd yr Aelodau fod y Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2021/22 yn cael ei ddatblygu yn seiliedig ar barhau ag amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2020/21.

**CEFNDIR**

6 Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. I ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod, caiff y rhain eu trin fel yr un rhai a chyfeirir atynt fel amcanion corfforaethol yr Awdurdod.

7 Dan y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod ymdrechu i wella ei wasanaethau yn y tymor byr ac ystyried llesiant cenedlaethau o bobl yn yr ardal yn y dyfodol yn y tymor hir. Rhaid i'r amcanion llesiant sy'n cael eu mabwysiadu ganddo gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant Cymru. A rhaid i'r Awdurdod fod yn gallu dangos ei fod yn cymryd yr holl gamau rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni ei amcanion.

8 Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi datganiad hefyd, yn esbonio sut bydd y gwaith o gyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol, a pham mae o'r farn ei fod wedi gosod amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid i'r datganiad hwn nodi'r camau mwy uniongyrchol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

**GWYBODAETH**

9 Roedd adborth a gafwyd gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2019 yn awgrymu bod angen i'r Awdurdod gynyddu nifer yr amcanion y mae'n mynd ynglŷn â nhw. Roedd hyn yn seiliedig ar ddehongli Adran 3(2)(a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sef bod rhaid i gorff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion "…sy'n cael eu cynllunio i sicrhau ei fod yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd pob un o'r nodau llesiant".

10 Bydd yr Aelodau'n cofio mai nodau llesiant Cymru yw: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

11 Mae'r Cynllun Corfforaethol 2021-24, sydd wedi'i atodi, yn seiliedig ar amcanion hirdymor yr Awdurdod (wedi'u hailenwi'n 'amcanion corfforaethol' oherwydd newidiadau cyfreithiol a ragwelir i'r gofynion adrodd). Cafodd y set yma o amcanion ei diwygio a'i helaethu i adlewyrchu adborth y Comisiynydd, a chafodd ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ym mis Mawrth 2020.

12 I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r saith amcan corfforaethol, mae cyfres o gamau byrdymor wedi'u cysylltu â saith nod llesiant Cymru drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar wefan Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhoi crynodeb o amcanion llesiant yr Awdurdod, ac mae'n nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i fynd ynglŷn â'r amcanion hynny. |
| Cyllideb | Mae cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn adlewyrchu lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'w cyflawni. Mae'r camau a gynlluniwyd ar gyfer 2021/22 wedi cael eu hystyried wrth osod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno. |
| Cyfreithiol | Bydd cyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol erbyn mis Mawrth yn gymorth i gydymffurfio â deddfwriaeth ym maes llesiant a chynllunio gwelliannau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Caiff effaith camau penodol ar yr agweddau hyn eu hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| Risgiau | Mae cyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol yn lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Mawrth 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Richard Fairhead,<br>Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Paul Scott, Uwch Reolwr Diogelwch Tân<br>01745 535286** |
| Pwnc | **Archwiliadau Diogel ac Iach** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Aelodau am yr effaith y mae'r cyfyngiadau diweddar oherwydd COVID 19 wedi ei chael ar nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth eleni, a beth fydd yr effaith bosibl ar darged blynyddol yr Awdurdod ar gyfer cynnal yr archwiliadau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r cyfyngiadau oherwydd COVID-19 wedi golygu bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi gorfod newid ei fodel ar gyfer cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach, sef drwy gynnal y rhan fwyaf ohonynt dros y ffôn. Mae'r nifer is o ymweliadau a gafodd eu cynnal yn bersonol wedi cael eu cyfyngu i gartrefi pobl sydd â risg arbennig o uchel o dân. Mae pob ymweliad o'r fath wedi bod yn destun asesiad risg llym er mwyn diogelu'r preswylydd/preswylwyr a staff y Gwasanaeth.

3 Felly, mae'r rhagolygon ar ddiwedd y flwyddyn o nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hon yn dangos y posibilrwydd o 40% yn is na tharged blynyddol yr Awdurdod, sef 20,000 o archwiliadau.

4 Tra bydd cyfyngiadau COVID-19 mewn grym, a hyd yn oed pan gaiff y cyfyngiadau eu codi, mae'n debygol y bydd angen i'r Gwasanaeth adolygu ei fodel cyflenwi Archwiliadau Diogel ac Iach arferol, ac o gael dulliau eraill o bosibl. Felly, efallai y bydd angen i'r Awdurdod ystyried newid ei darged blynyddol ar gyfer yr archwiliadau hyn yn y blynyddoedd i ddod.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL**

5 Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror a bu i'r Aelodau gytuno'r argymhellion isod.

## ARGYMHELLION

6 Gofynnir i'r Aelodau:

a. nodi'r posibilrwydd o nifer is o Archwiliadau Diogel ac Iach a fydd wedi cael eu cynnal yn y flwyddyn ariannol hon o gymharu â'r targed o 20,000 a osodwyd cyn pandemig COVID-19; a
b. nodi bod posibilrwydd, yn ddibynnol ar COVID-19, y bydd y Gwasanaeth yn methu cyrraedd ei darged blynyddol o 20,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn 2021/22.

## CEFNDIR

7 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn dilyn Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân yn 2007 (a adolygwyd yn 2009), wedi mabwysiadu targed blynyddol o ddarparu 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Gan fod tua 300,000 o gartrefi yng Ngogledd Cymru, roedd y strategaeth yn seiliedig ar y posibilrwydd o ymweld â phob cartref o fewn cyfnod o ddeng mlynedd.

8 Oherwydd bod Llywodraeth Cymru, yn 2015, wedi gostwng y cyllid cyfalaf ar gyfer larymau mwg un-pwynt, cafodd y targed blynyddol ei ostwng o 30,000 i 20,000.

9 Ers yr adeg honno, mae'r cyllid cyfalaf wedi aros yr un fath ond mae cost unedau'r larymau wedi cynyddu, felly nifer is o'r larymau y gellir eu prynu.

## GWYBODAETH

10 Pan gafodd y cyfnod clo cyntaf yng Nghymru oherwydd COVID-19 ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2020, fe wnaeth y Gwasanaeth roi'r gorau i gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach wyneb yn wyneb. Y rheswm am hynny oedd er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiadau symud ac er mwyn diogelu'r gymuned a'r staff a fyddai'n cynnal yr archwiliadau.

11 Yn hytrach nag ymweld â chartrefi yn bersonol, dechreuodd y Gwasanaeth gynnal mwy o archwiliadau dros y ffôn. Os gwelid bod angen larymau mwg, trefnid i fynd â'r rhain at yr eiddo. Mae rhai o'r staff a fyddai fel arfer yn cynnal archwiliadau yn bersonol wedi cael eu symud i ddyletswyddau eraill, gan gynnwys cefnogi'r ymateb amlasiantaethol i COVID 19.

12 Ym mis Awst 2020, ar ôl gwneud asesiadau risg llym, aeth y Gwasanaeth ati i adolygu ei benderfyniad ac i ailddechrau cynnal archwiliadau wyneb yn wyneb i unigolion a aseswyd fel rhai a oedd yn arbennig o agored i newid ac â risg uwch o dân.

13 Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Ionawr 2021, fe wnaeth y Gwasanaeth gynnal cyfanswm o 9,919 o Archwiliadau Diogel ac Iach. O'r rhain, cafodd 2,229 eu cynnal yn bersonol yn yr eiddo, a chafodd y 7,690 arall eu cynnal dros y ffôn. O'r rhai a gafodd eu cynnal dros y ffôn, roedd 2,512 angen cael larwm mwg ar gyfer yr eiddo. Hyd yma eleni, mae mwy na 33% o'r archwiliadau wedi cael eu cynnal i ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner i ni.

14 Amcangyfrifir mai tua 12,000 fydd cyfanswm yr Archwiliadau Diogel ac Iach yn 2020/21, a bydd tua 9,000 o'r rhain wedi digwydd dros y ffôn. Nid yw hyn yn cyrraedd y targed o 20,000 o archwiliadau, sef y targed a osodwyd gan yr Awdurdod o'r blaen, ond wrth i'r pandemig barhau, ystyrir ei bod yn briodol parhau gyda'r dull hwn o'u cynnal.

15 Os caiff y cyfyngiadau eu codi yn nes ymlaen yn 2021, bydd y Gwasanaeth yn ystyried dychwelyd i gynnal pob Archwiliad Diogel ac Iach wyneb yn wyneb, gan gymryd i ystyriaeth yr hyn a ddysgwyd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau. Cydnabuwyd y fantais o gynnal archwiliadau dros y ffôn i gartrefi yr asesir eu bod yn rhai â 'risg isel', ac mae'n bosibl iawn y bydd hyn yn rhan o'r strategaeth o gynnal yr archwiliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y caiff y cyfyngiadau eu codi'n llwyr o fis Ebrill 2021 ymlaen, felly bydd y Gwasanaeth yn parhau i adolygu'r dulliau yn ystod 2021/22, gyda'r nod o gyfyngu'r dulliau 'wyneb yn wyneb' i'r cartrefi yr asesir eu bod â'r risg uchaf o dân.

16 Er bod nifer is o Archwiliadau Diogel ac Iach wedi cael eu cynnal yn 2020/21, ac er i ni newid y model cyflenwi, mae'r Gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu archwiliadau i'r bobl sydd â'r risg uchaf o farw mewn tân damweiniol mewn cartrefi. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'n partneriaid i ganfod y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, ac i ddarparu archwiliadau priodol i'r cartrefi hynny.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Disgwylir bod nifer is na'r targed o Archwiliadau Diogel ac Iach wedi cael eu cynnal eleni. Mae'r amcan hirdymor o weithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru yn parhau. |
| Cyllideb | Posibilrwydd y bydd cyllid grant yn cael ei leihau yn y blynyddoedd i ddod. |
| Cyfreithiol | Ni chanfuwyd dim. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. Mae rhai aelodau o staff sydd fel arfer yn cynnal archwiliadau yn bersonol wedi cael eu symud i ddyletswyddau eraill dros dro. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Parheir i ganolbwyntio ar ddarparu i'r bobl sydd â'r risg uchaf o dân, sy'n cynnwys ystyried nodweddion personol megis oedran ac anabledd wrth asesu. Mae'r archwiliadau'n parhau i fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. |
| Risgiau | Drwy barhau i ddarparu archwiliadau mewn ffordd fwy targedol, rydym yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd o'r risgiau cymunedol sy'n gysylltiedig â mwy o danau ac anafusion oherwydd tanau. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Mawrth 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid**<br>**01745 535286** |
| Pwnc | **Alldro Amcanol 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r sefyllfa alldro ragamcanol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 fel yr oedd pethau ar 31 Ionawr 2021. Mae hyn yn cynnwys golwg gyffredinol ar incwm a gwariant refeniw a chyfalaf.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2019, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb refeniw yn werth £35.9m. Y sefyllfa alldro a ragwelir o hyd yw y bydd yr Awdurdod yn adennill y costau o gymharu â'r gyllideb hon, gan gynnwys trosglwyddo £0.1m i gronfeydd a glustnodwyd.

3 Yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2019, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb cyfalaf yn werth £4.1m. Oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19, cafodd y ffigwr hwn ei adolygu a'r gwariant ei ddiwygio i £0.15m.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r sefyllfaoedd alldro refeniw a chyfalaf drafft fel sydd yn yr adroddiad; a
(ii) cymeradwyo'r cais i ail-gysoni'r gyllideb.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

6 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am sefyllfa alldro ragamcanol y gwariant refeniw a chyfalaf ym mlwyddyn ariannol 2020/21.

**GWYBODAETH**

**CYLLIDEB REFENIW**

7 Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa alldro'r refeniw ragamcanol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Mae'n cadarnhau sefyllfa lle adenillir costau, o gymharu â'r gyllideb sy'n £35.942m.

| Pennawd yn y gyllideb | Cyllideb £'000 | Rhagamcan £'000 | Amrywiad £'000 |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr Cyflogedig | 27,069 | 25,866 | -1,203 |
| Safleoedd | 2,475 | 2,991 | 516 |
| Cludiant | 1,004 | 1,010 | 6 |
| Cyflenwadau, Gwasanaethau a Thaliadau Trydydd Parti | 5,145 | 6,099 | 954 |
| Cyllido Cyfalaf | 2,836 | 2,591 | -245 |
| Incwm | -2,587 | -2,719 | -132 |
| Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn | 0 | 104 | 104 |
| **Cyfanswm** | **35,942** | **35,942** | **0** |

**Costau Gweithwyr Cyflogedig**

8 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, y gyllideb ar gyfer y gweithwyr cyflogedig yw £27.07m, sef 72% o'r gwariant gros. Y rhagolwg alldro drafft yw £1.2m o danwariant. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod nifer sylweddol o swyddi gwag ar gyfer prentisiaid diffoddwyr tân a phrentisiaid tân busnes, diffoddwyr tân y system RDS, a swyddi cefnogol eraill. Oherwydd pandemig COVID-19, ni fu modd symud ymlaen i recriwtio i bob swydd er bod y swyddi hyn yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion yr Awdurdod.

9 Mae'r broses o osod y gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth mai 2% fyddai'r dyfarniadau cyflog i'r holl staff. Cafodd y dyfarniadau cyflog eu pennu'n derfynol yn ystod mis Awst a mis Medi, a chytunwyd mai 2.75% fyddent i staff Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) (y llyfr gwyrdd) a 2% i staff diffodd tân (y llyfr llwyd). Ar gyfer 2020/21, bu modd cwrdd â'r costau ychwanegol drwy arbedion yn ymwneud â swyddi gwag yn ystod y flwyddyn.

10 Caiff y tanwariant mewn cysylltiad â chostau cyflogau ei ddefnyddio i ariannu'r cit tân newydd, a oedd yn wreiddiol am gael ei ariannu drwy fenthyca.

**Safleoedd**

11 £2.47m yw'r gyllideb ar gyfer safleoedd, a rhagwelir £0.517m o orwariant. Mae'r gorwariant a ragwelir yn cynnwys tâl ar gyfer ardrethi busnes, yn deillio o newid i brisiad wedi'i ôl-ddyddio, ynghyd â chostau'n gysylltiedig â gwariant ar adeiladau oherwydd pandemig COVID-19.

## Cludiant

12 £1.0m yw'r gwariant a ragwelir ar gyfer costau'n ymwneud â chludiant, sy'n cyd-fynd yn fras â'r gyllideb. Mae'r gwariant yn ystod y flwyddyn yn cynnwys costau ychwanegol yn deillio o ofynion deddfwriaethol yn ymwneud â chael teiars newydd yn lle hen rai, a hefyd costau'n deillio o addasiadau oedd eu hangen er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth yn ystod pandemig COVID-19.

## Cyflenwadau

13 £6.1m yw'r gwariant a ragwelir ar gyflenwadau, sef gorwariant o gymharu â'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys costau uwch yn gysylltiedig â thrwyddedau cyfrifiaduron a chynnal a chadw cyfrifiaduron, yn ogystal â chostau uwch yn gysylltiedig â phrosiectau trawsffurfio, gan gynnwys gweithio ystwyth a lefelau uwch o gyfarpar amddiffyn personol o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae'r sefyllfa alldro ragamcanol hefyd yn cynnwys £0.765m yn gysylltiedig â phrynu cit tân newydd.

## Cyllido Cyfalaf

14 £2.84m yw'r gyllideb cyllido cyfalaf. Mae'r costau cyllido cyfalaf yn cynnwys y tâl i'r refeniw am ddibrisio, a hefyd cost benthyca. Disgwylir £0.2m o danwariant, sy'n adlewyrchu'r gostyngiadau yn rhaglenni cyfalaf 2019/20 a 2020/21. Mae'r rhagolwg hwn yn disgwyl y bydd y cyfraddau llog yn aros ar eu lefel presennol.

## Incwm

15 £2.58m yw'r gyllideb incwm, ac mae £2.21m o hwnnw yn ymwneud ag arian grant. £0.43m yw'r incwm a ragwelir (ac eithrio grantiau), ac mae £0.1m o hwnnw yn ymwneud â'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.

## Cronfeydd wrth gefn

16 Oherwydd pandemig COVID-19, cafwyd nifer o achosion o oedi wrth gwblhau prosiectau. Rhagwelir y bydd £0.1m yn cael ei gynnwys yn y cronfeydd a glustnodwyd er mwyn gallu cwblhau'r prosiectau hyn yn ystod 2021/22. Mae posibilrwydd y gallai hyn gynyddu, gan ddibynnu faint o waith gaiff ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth.

**Cyllid Grantiau Refeniw**

17 Dyma ddadansoddiad o'r arian grant ar gyfer 2020/21.

| Manylion y Grantiau | Dyraniad £ |
|---|---|
| Lleihau Llosgi Bwriadol | 157,170 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 223,300 |
| Y Ffenics | 147,980 |
| Cymru Gydnerth | 154,256 |
| Cyfraniadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 1,110,766 |
| Firelink | 415,600 |
| **Cyfanswm yr Arian Grant** | **2,209,072** |

**Y Gyllideb Refeniw Ddiwygiedig**

18 Yn ystod y flwyddyn, bu'n rhaid adolygu dyraniad y gyllideb ar draws y penawdau incwm a gwariant. Mae'r tabl isod yn darparu manylion y gyllideb wreiddiol a'r gyllideb ddiwygiedig.

| Pennawd yn y gyllideb | Y gyllideb y cytunwyd arni yn Nhachwedd 2020 £'000 | Diwygiedig £'000 | Addasiad £'000 |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr Cyflogedig | 27,181 | 27,069 | -11w2 |
| Safleoedd | 2,461 | 2,475 | 14 |
| Cludiant | 1,009 | 1,004 | -5 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4,564 | 4,684 | 120 |
| Taliadau Trydydd Parti | 461 | 461 | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 2,836 | 2,836 | 0 |
| Incwm | -2,570 | -2,587 | -17 |
| **Cyfanswm** | **35,942** | **35,942** | **0** |

**RHAGLEN GYFALAF**

19 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf sy'n £4.09m. Oherwydd pandemig COVID-19, bu'n rhaid adolygu a diwygio'r rhaglen gyfalaf er mwyn adlewyrchu prosiectau y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

20 £0.15m yw'r alldro amcanol ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

| Adran | Disgrifiad | 2020/21 £000 Dyraniad Gwreiddiol | 2020/21 £000 Dyraniad Diwygiedig |
|---|---|---|---|
| Fflyd | Cerbydau a pheiriannau newydd yn lle hen rai | 1,350 | 150 |
| Gweithrediadau | Cyfarpar amddiffyn personol a chyfarpar gweithredol | 870 | 0 |
| Cyfleusterau | Uwchraddio adeiladau | 1,194 | 0 |
| TGCh/Yst. Reoli | Uwchraddio systemau a gwaith cysylltiedig | 674 | 0 |
| | **Dyraniad Cyfalaf Diwygiedig** | **4,088** | **150** |

21 Ers i'r rhaglen gael ei diwygio, bu oedi mewn prosiectau sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu a pheiriannau tân, oherwydd pandemig COVID-19.

22 Bu oedi mewn cynlluniau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu gan fod gwaith y tîm TGCh wedi cael ei ail-flaenoriaethu er mwyn rheoli'r newid i weithio o bell. Mae cynlluniau eraill wrthi'n cael eu hadolygu, ac nid oes disgwyl iddynt olygu costau cyfalaf yn 2020/21.

23 Rhagwelir y caiff y cynlluniau gohiriedig eu cwblhau yn 2021/22.

24 Daethpwyd â'r broses o brynu tair fan ymlaen o 2021/22, er mwyn ei gwneud yn haws i barhau â'r trefniadau gweithio symudol a roddwyd ar waith gan Adran y Fflyd. Cyflwynwyd y trefniadau hyn yn ystod pandemig COVID-19, ac maent yn debygol o barhau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ac amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae arian ar gyfer y Gwasanaeth yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith er mwyn galluogi'r gwasanaeth ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Caiff y gyllideb ei gosod bob blwyddyn, yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol fod yr Awdurdod yn llunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod a'u hadrodd yn briodol i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Mawrth 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, PSTC Cyllid ac Adnoddau (01745 535286)** |
| Pwnc | **Y Diweddaraf am Gyllideb 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r gyllideb refeniw ar gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) osod cyllideb fantoledig ymhob blwyddyn ariannol, a chadarnhau ffigyrau'r cyfraniadau gyda phob awdurdod lleol cyfansoddol. 37.074m oedd y gyllideb ar gyfer 2021/22, a chafodd hynny ei gymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 9 Tachwedd 2020. Mae rhagor o waith wedi cael ei gwblhau, sy'n cadarnhau gofyniad cyffredinol y gyllideb, er bod y dyraniad ar draws penawdau'r gyllideb wedi cael eu diwygio.

3 Ni fu newid yn y rhagdybiaethau allweddol, y risgiau na'r ansicrwydd a ganfuwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r dyraniadau cyllideb refeniw a chyfalaf a ddiweddarwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL**

5 Amherthnasol.

**CEFNDIR**

6 £37.074m oedd y gyllideb refeniw ar gyfer 2021/22, a chytunwyd ar hyn yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 9 Tachwedd 2020.

7 Cymeradwywyd rhaglen gyfalaf o £3.083m.

**GWYBODAETH**

8 Ers i'r gyllideb refeniw a'r rhaglen gyfalaf gael eu cymeradwyo, mae'r gwaith wedi mynd ymlaen i sicrhau bod cyllideb refeniw 2021/22 yn adlewyrchu'r amgylchedd ansicr yr ydym yn gweithredu o'i fewn ar hyn o bryd oherwydd Covid-19. Mae hyn wedi arwain at fod angen diwygio dyraniadau'r gyllideb rhwng penawdau'r gyllideb er mwyn delio â'r ffaith fod blaenoriaethau'n newid.

9 Cafodd y rhaglen gyfalaf ei hadolygu hefyd, er mwyn sicrhau bod modd ei fforddio o hyd.

**DYRANIADAU DIWYGIEDIG Y GYLLIDEB REFENIW 2021/22**

10 £37.074m oedd y gyllideb ar gyfer 2021/22, a chytunwyd ar hyn yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 9 Tachwedd 2020. Ers hynny, mae rhagor o waith wedi cael ei gwblhau, sy'n cadarnhau gofyniad cyffredinol y gyllideb ar draws y penawdau canlynol yn y gyllideb.

| | **Cyllideb 2021/22 y cytunwyd arni ym mis Tachwedd 2020 £'000 £** | **Cyllideb Ddiwygiedig 2021/22 £'000 £** |
|---|---|---|
| Costau cyflogau gweithwyr cyflogedig | 26,775,611 | 26,975,477 |
| Costau eraill yn gysylltiedig â gweithwyr cyflogedig | 1,336,677 | 1,384,102 |
| **Cyfanswm Costau Gweithwyr Cyflogedig** | **28,112,288** | **28,359,579** |
| Safleoedd | 2,718,352 | 2,687,110 |
| Cludiant | 1,009,221 | 1,003,257 |
| Cyflenwadau, Gwasanaethau a Thaliadau Trydydd Parti | 4,927,565 | 4,975,959 |
| **Cyfanswm y Gwariant heb fod yn gysylltiedig â Chyflogau** | **8,655,138** | **8,666,326** |
| Ffioedd a Thaliadau/Incwm Amrywiol | -235,356 | -231,356 |
| Incwm Grantiau | -2,209,072 | -2,187,555 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **-2,444,428** | **-2,418,911** |
| Cyllido Cyfalaf a Thaliadau Llog | **2,751,240** | **2,467,243** |
| | | |
| **Gofyniad y gyllideb** | **37,074,237** | **37,074,237** |
| **Y Cynnydd yn y Gyllideb** | 3.15% | |

11 Gwnaethpwyd gwaith cynllunio manwl ar gyfer y gyllideb, gan gynnwys adolygu'r rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau a'r ansicrwydd, fel y nodir yn yr adroddiad a gyflwynwyd ar 9 Tachwedd 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r cymorth grant ar gyfer 2021/22, ond nid yw'r holl risgiau ac ansicrwydd eraill wedi newid.

12 Er bod yr adolygiad o wariant ym mis Tachwedd 2020 wedi cyhoeddi bod cyflogau'r sector cyhoeddus wedi'u rhewi, nid yw hyn yn rhwymol i staff Gwasanaethau Tân ac Achub. Gan nad yw'r dyfarniadau cyflog cenedlaethol wedi cael eu pennu'n derfynol, mae hyn yn dal yn risg sylweddol wrth gynllunio. Mae'r gwaith yn parhau i sicrhau bod costau gweithwyr cyflogedig yn cael eu rheoli'n ofalus, gan gynnwys parhau i reoli cyflogau sy'n amrywio.

13 Mae costau gweithwyr cyflogedig yn 72% o'r gwariant net, a £26.9m yw'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22. Cafodd y gyllideb ei gosod gan ragdybio 2% o ddyfarniad cyflog i'r holl staff. Ni fydd y dyfarniad hwn yn cael ei ddosbarthu fel rhan o gyllideb y Gwasanaeth, bydd yn cael ei gadw'n ganolog, hyd nes bydd canlyniad y trafodaethau ynghylch cyflogau yn hysbys.

14 Mae'r gyllideb ddiwygiedig yn rhoi ystyriaeth i'r newidiadau hysbys i nifer y llu yn 2021/22, gan gynnwys recriwtio 18 o brentisiaid diffoddwyr ac 8 o ddiffoddwyr tân.

15 Rhoddwyd rhagor o ystyriaeth i'r adolygiad o'r risgiau penodol o fewn pob pennawd yn y gyllideb, gan arwain at £0.16m o gynnydd pellach, sef i £8.66m, am gyflenwadau, gwasanaethau a thaliadau trydydd parti. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysau na ellir eu hosgoi ar y costau mewn perthynas â chostau cyfleustodau, gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni, costau tanwydd a chostau TGCh, gan gynnwys trwyddedau meddalwedd a chontractau cynnal a chadw. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i reoli'r costau nad ydynt yn gyflogau, sef drwy ddefnyddio opsiynau caffael Cymru gyfan.

16 Mae'r costau cyllido cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Ni ddisgwylir cynnydd yng nghyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn ystod 2021/22 ac nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf ar gyfer 2021/22 wedi cael ei gostwng er mwyn adlewyrchu'r gostyngiadau yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019/20, 2020/21 a 2021/22. Mae'r costau cyllido cyfalaf wedi cael eu diwygio yn unol â'r gostyngiad yn y cynllun cyfalaf, ynghyd â'r gostyngiad parhaus yn y costau benthyca.

**CYNLLUN CYFALAF WEDI'I DDIWEDDARU AR GYFER 2021/22**

17 Dyma'r cynllun cyfalaf wedi'i ddiweddaru:

| Adran | Disgrifiad | 2021/22 Cytunwyd yn Nhachwedd 2020 £000 | 2021/22 Arfaethedig £000 |
|---|---|---|---|
| Yst. Reoli/TGCh | Uwchraddio System/Gweinydd | 167 | 167 |
| Cyfleusterau | Adnewyddu adeiladau | 888 | 790 |
| Fflyd | Cerbydau a pheiriannau newydd yn lle hen rai | 2,028 | 2,028 |
| Gweithrediadau | Cyfarpar Amddiffyn Personol (PPE) | 0 | 0 |
| **DYRANIAD CYFALAF ARFAETHEDIG** | | **3,083** | **2,985** |

18 Mae'r cynllun cyfalaf yn cadarnhau £2.98m o ofyniad cyfalaf ar gyfer 2021/22. Mae prif elfen y cynllun yn ymwneud â buddsoddiad hanfodol mewn peiriannau tân newydd.

19 Mae pob cynllun sydd yn y cynllun cyfalaf wedi cael eu hadolygu yn sgil effaith Covid 19. Mae £0.8m o ofyniad cyfalaf wedi cael ei gynnwys ar gyfer cynlluniau adeiladu, ac oherwydd y sefyllfa sy'n parhau, ynghyd â'r newidiadau a ddisgwylir yn lefelau deiliadaeth adeiladau, bydd pob gwaith adeiladu yn destun adolygiad pellach cyn rhyddhau unrhyw gyllid. Caiff Strategaeth Ystadau ei datblygu yn 2021/22, a bydd honno'n ymdrin â datblygu/rheoli'r ystâd yn y presennol a'r dyfodol.

20 Rhoddir ystyriaeth ar hyn o bryd i ddatblygu'r cyfleuster hyfforddi ar safle Dolgellau, a hynny ar ôl derbyn arolwg o'r cyflwr yn 2019. Ni wyddom ar hyn o bryd beth fydd maint y gwaith na'r costau disgwyliedig, ac maent yn annhebygol o symud ymlaen yn ystod 2021/22. Felly, nid yw'r cynllun wedi cael ei gynnwys yn y cynllun cyfalaf ar gyfer 2021/22.

21 Bydd y gwariant cyfalaf yn cael effaith ganlyniadol ar y taliadau cyllido cyfalaf yn y blynyddoedd ariannol i ddod, sydd wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb refeniw.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gyllideb yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor. |
| Cyllideb | £1.13m yw'r cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall yng nghyfraniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer 2021/22. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb refeniw fantoledig. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae'r gyllideb wedi cael ei hasesu mewn perthynas â risgiau, a nodwyd y risgiau allweddol a ganlyn:<br>• Mae'r gyllideb yn seiliedig ar y rhagdybiaeth mai 2% fydd y dyfarniadau cyflog. Ni ddaethpwyd i gytundebau cenedlaethol eto;<br>• Mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau i ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol yn ystod 2021/22. Ni wnaethpwyd asesiad o'r costau eto; ac<br>• Mae ansicrwydd yn parhau ynghylch gadael yr UE, ac nid oes costau ychwanegol wedi cael eu cynnwys yng nghyllideb 2021/22. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Mawrth 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Strategaeth Gyfalaf 2021/22 – 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad ar y Strategaeth Gyfalaf yn rhoi gwybod sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r modd y mae'r risg cysylltiedig yn cael ei reoli, a beth yw'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Mae'n rhoi crynodeb o'r prosesau a'r gweithdrefnau cyffredinol sy'n llywodraethu'r gwaith o brynu ac ariannu asedau, a hynny er mwyn cynyddu dealltwriaeth yr aelodau o'r meysydd technegol hyn. Mae'r adroddiad yn ymgorffori'r Dangosyddion Darbodus a Strategaethau'r Trysorlys.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2021/22 eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2020. Fe wnaeth yr Aelodau gymeradwyo cyllideb refeniw net o £37.07m ar gyfer 2021/22, gan gymeradwyo £3.08m arall ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae'r Strategaeth Gyfalaf wedi cael ei pharatoi gan ddefnyddio'r data perthnasol a oedd yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf fel y cymeradwywyd gan yr Aelodau ac a oedd mewn gwahanol bolisïau a gweithdrefnau sydd ar gael i reoli'r gwaith o brynu ac ariannu asedau.

3 Mae'r adroddiad sydd yn atodiad 1 yn darparu rhagor o fanylion am y Strategaeth Gyfalaf, ynghyd â gwybodaeth fanwl am y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2021/22 i 2023/24 a'r strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â benthyca a buddsoddi arian yr Awdurdod ym mlwyddyn ariannol 2021/22.

**SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 25 Ionawr 2021. Tasg y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau yn cael eu craffu'n effeithiol, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau. Bu i'r Aelodau argymell yr adroddiad er cymeradwyaeth yr Awdurdod Tân ac Achub.

## ARGYMHELLIAD

5 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf sy'n ymgorffori'r polisi ar ddarpariaeth isafswm refeniw (MRP), y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus.

## GWYBODAETH

6 Mae'r strategaethau yn yr adroddiad wedi cael eu paratoi gan ddefnyddio canllawiau gan Arlingclose, sef ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys a ddefnyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac sydd â chyfrifoldeb am swyddogaeth Trysorlys y Gwasanaeth Tân ac Achub.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'n sicrhau bod y broses o brynu asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn broses ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn ar gyfer cyllido cyfalaf yn unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gael yn yr atodiadau i'r adroddiad. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Buddsoddi arian dros ben – mae yna risg y byddai'r sefydliadau ariannol lle mae arian y gwasanaeth yn cael ei fuddsoddi yn gallu methu, gan golli rhan o'r prifswm a fuddsoddwyd. Er hynny, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg yma. |

**Atodiad 1**

## STRATEGAETH GYFALAF

Mae'r ddogfen hon yn nodi Strategaeth Gyfalaf (y Strategaeth) Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2021/22 at 2023/24.

Mae'r strategaeth hon yn dwyn ynghyd y meysydd cymhleth sy'n ymwneud â buddsoddi cyfalaf, ac mae'n cynnwys:

1. Cynlluniau gwariant cyfalaf;
2. Gofynion cyllido cyfalaf;
3. Y goblygiadau i'r gyllideb refeniw yn sgil penderfyniadau cyfalaf;
4. Pa mor fforddiadwy a chynaliadwy yw'r cynlluniau cyfalaf;
5. Gweithgarwch rheoli'r trysorlys;
6. Dangosyddion darbodus; a
7. Trefniadau llywodraethu.

### 1.0 Cynlluniau Gwariant Cyfalaf

Gwariant cyfalaf yw pan fo'r Awdurdod yn gwario arian ar asedau a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys symiau sy'n cael eu gwario ar brynu asedau megis eiddo, cerbydau neu gyfarpar, ond gallai hefyd gynnwys gwariant ar uwchraddio asedau sydd ganddo eisoes. Fel arfer, mae'r asedau gwaelodol yn eiddo i'r Awdurdod ond gellid hefyd wneud gwariant cyfalaf ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill neu sy'n ymwneud â benthyciadau neu grantiau a roddir i gyrff eraill i'w galluogi nhw i brynu asedau.

Mae'r Awdurdod yn dilyn Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol, sy'n cynnwys rhywfaint o ddisgresiwn cyfyngedig ynghylch beth yw gwariant cyfalaf. Er enghraifft, nid yw asedau sy'n costio llai £5,000 yn cael eu cyfalafu, ac maent yn cael eu codi'n uniongyrchol ar y cyfrif refeniw yn y flwyddyn pryd digwyddodd y gwariant. Mae Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod yn cynnwys y rheolaethau allweddol, ac maent yn cadarnhau bod rhaid i bob gwariant ddigwydd yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Awdurdod.

Mae manylion polisi'r Awdurdod ar gyfalafu a thrin asedau ar gyfer cyfrifyddu ar gael fel atodiad i'r Datganiad o Gyfrifon dan 'Polisïau Datganiad Cyfrifyddu'. Mae'r cyfrifon yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ar wefan y Gwasanaeth Tân, sef www.gwastan-gogcymru.org.uk.

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod yn cydnabod bod angen buddsoddi'n barhaus mewn adeiladau, cerbydau, asedau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a chyfarpar i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni'r amcanion a nodwyd ganddo. Mae trefniadau llywodraethu ar gael i sicrhau bod pob gwariant yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd yng Nghynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod.

Mae'r gwariant cyfalaf isod yn rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod, a chafodd ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Tachwedd 2020.

| | **Gwir-ioneddol 2019/20 £'000** | **Diwyg-iedig 2020/21 £'000** | **Diwyg-iedig 2021/22 £'000** | **Amcan-gyfrif 2022/23 £'000** | **Amcan-gyfrif 2023/24 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf | 775 | 1,031 | 3,082 | 2,576 | 5,176 |

## 2.0 Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR)

Fel rhan o'r broses ar gyfer sefydlu'r cynlluniau gwariant cyfalaf, mae'n bwysig fod yr Awdurdod yn ystyried sut bydd gwariant o'r fath yn cael ei ariannu a pha mor fforddiadwy yw'r penderfyniadau hyn dros oes yr ased. Gellir ariannu gwariant cyfalaf o ffynonellau mewnol megis cyllidebau refeniw, derbyniadau cyfalaf neu gronfeydd defnyddiadwy, neu o ffynonellau allanol megis benthyca, prydlesu neu grantiau.

Dim ond ffynhonnell dros dro o gyllid yw benthyciadau, a rhaid eu had-dalu yn ystod oes yr ased. Codir tâl ar gyfrifon refeniw'r Awdurdod ymhob blwyddyn, a'r enw ar hyn yw darpariaeth isafswm refeniw (MRP).

Mae gweddill swm cronnol arian benthyg yr Awdurdod yn cael ei fesur gan y gofynion cyllido cyfalaf (CFR). Mae hyn yn cynyddu pan fydd rhagor o wariant yn cael ei ariannu gan fenthyciadau, ac mae'n lleihau pan fo dyled yn cael ei had-dalu drwy dderbyniadau cyfalaf a CFR.

Pan nad oes angen ased cyfalaf mwyach, mae'n bosibl ei werthu er mwyn gallu gwario'r elw, sef yr hyn a elwir yn dderbyniadau cyfalaf, ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled.

Mae Gofyniad Cyllido Cyfalaf yr Awdurdod wedi'i nodi yn y tabl isod:

| | **Gwir-ioneddol 2019/20 £'000** | **Diwyg-iedig 2020/21 £'000** | **Amcan-gyfrif 2021/22 £'000** | **Amcan-gyfrif 2022/23 £'000** | **Amcan-gyfrif 2023/24 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) | | | | | |
| CFR Agoriadol | 33,382 | 31,744 | 30,581 | 31,505 | 31,839 |
| CFR Clo | 31,744 | 30,581 | 31,505 | 31,839 | 34,640 |
| Symudiad yn y CFR | (1,638) | (1,163) | 924 | 334 | 2,801 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symudiad yn y CFR a gynrychiolir gan | | | | | |
| Yr angen cyllido net ar gyfer y flwyddyn (uchod) | 599 | 1,031 | 3,082 | 2,576 | 5,176 |
| Llai MRP/VRP | (2,236) | (2,195) | (2,159) | (2,243) | (2,374) |
| Symudiad yn y CFR | (1,638) | (1,163) | 924 | 334 | 2,801 |

## 3.0 Y Goblygiadau i'r Gyllideb Refeniw yn sgil Penderfyniadau Cyfalaf

Nid yw gwariant cyfalaf yn cael ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw. Yn hytrach, bydd ffi flynyddol yn cael ei chodi ar y cyfrif refeniw am ddefnyddio'r asedau cyfalaf. Mae'r ffi hwn i'r refeniw yn adlewyrchu ad-dalu cyfran o'r benthyciad a gafwyd i brynu'r asedau cyfalaf gwaelodol. Yr enw ar y ffi i'r refeniw yw darpariaeth isafswm refeniw (MRP), ac mae'n rhan o'r ffi cyllid cyfalaf. Mae'r ffi cyllid cyfalaf hefyd yn cynnwys cost llog am fenthyca, ond gallai hefyd gael ei wrthbwyso gan unrhyw incwm buddsoddi a dderbynnir.

Nid yw Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn nodi sut dylid cyfrifo'r ddarpariaeth isafswm refeniw (MRP), ond rhaid i'r Awdurdod ystyried cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2018. Nod y cyfarwyddyd yn gyffredinol yw sicrhau bod y ffioedd a godir ar gyfrif refeniw'r Awdurdod dros oes yr ased yn adlewyrchu'r costau gwaelodol a'r ffioedd cyllid. Felly, bydd cost lawn y penderfyniadau cyfalaf yn cael eu hadlewyrchu yn sefyllfa refeniw'r Awdurdod.

Mae polisi'r Awdurdod ynghylch yr MRP wedi'i nodi isod. Mae'n gyson â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei adlewyrchu yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2020:

- Caiff yr MRP ei gyfrifo drwy godi tâl am y gwariant dros yr oes ddefnyddiol a ddisgwylir gan yr ased, fel y nodir ym Mholisïau Cyfrifyddu Ariannol yr Awdurdod. Telir mewn rhandaliadau cyfartal, a byddant yn cychwyn yn y flwyddyn pryd daeth yr ased yn weithredol.

Isod, rhoddir amlinelliad o effaith refeniw'r cynlluniau buddsoddi cyfalaf:

| | Gwir-ioneddol 2019/20 (£'000) | Rhagolwg 2020/21 (£'000) | Cyllideb 2021/22 (£'000) | Cyllideb 2022/23 (£'000) | Cyllideb 2023/24 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Sefyllfa'r Isafswm Refeniw | 2,236 | 2,195 | 2,159 | 2,243 | 2,374 |
| Costau cyllido | 513 | 458 | 592 | 637 | 591 |
| **Cyfanswm y ffi i'r refeniw** | **2,749** | **2,653** | **2,751** | **2,880** | **2,965** |

## 4.0 Pa mor fforddiadwy a chynaliadwy yw Cynlluniau Cyfalaf

Oherwydd natur hirdymor yr asedau cyfalaf, bydd y penderfyniadau a wneir am wariant cyfalaf yn arwain at ganlyniad i'r refeniw am nifer o flynyddoedd. Mae union nifer y blynyddoedd yn dibynnu ar y math o ased, ond o ran adeiladau, gallai hyn ymestyn i 50 mlynedd. Felly, rhaid i'r broses o gynllunio cyfalaf roi ystyriaeth ddyledus i ba mor fforddiadwy a chynaliadwy yn y tymor hir yw'r gwariant cyfalaf a'r penderfyniadau cyllido.

Mae'r Rheoliadau Ariannol yn cynnwys rheolaethau i sicrhau bod pob cynnig yn destun craffu priodol a chymeradwyaeth. Hefyd, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dangosyddion fforddiadwyedd i roi dealltwriaeth o effaith cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar sefyllfa refeniw cyffredinol yr Awdurdod.

Y mesur craidd yw'r costau cyllido, a hynny yn union ac yn amcangyfrifiedig, fel canran o holl gostau refeniw'r Awdurdod. Mae hyn yn canfod tueddiad yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill) o gymharu â'r llifoedd refeniw a ddisgwylir o fewn y cynlluniau ariannol tymor canolig. Mae amcangyfrifon y costau ariannu isod yn cynnwys yr ymrwymiadau cyfredol a'r Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd gan yr aelodau ym mis Tachwedd 2020.

| | Gwir-ioneddol 2019/20 % | Diwyg-iedig 2020/21 % | Amcan-gyfrif 2021/22 % | Amcan-gyfrif 2022/23 % | Amcan-gyfrif 2023/24 % |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhareb | 7.8% | 7.4% | 7.4% | 7.6% | 7.6% |

## 5.0 Strategaeth Rheoli'r Trysorlys

Mae trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn rhan allweddol o'r strategaeth gyfalaf, ac maent yn adlewyrchu'r gwaith o reoli llif arian parod ar gyfer gofynion gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

Mae gweithgareddau trysorlys yr Awdurdod yn cael eu rheoleiddio'n llym gan ofynion statudol a chodau ymarfer proffesiynol (Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys). Mae'r Cod yn mynnu bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cael ei hadrodd i'r Awdurdod bob blwyddyn. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn nodi sut bydd yr Awdurdod yn bodloni'r gofynion ariannu a bennwyd yn y cynlluniau gwariant cyfalaf.

Un o ofynion allweddol y strategaeth yw esbonio'r risgiau, a'r dulliau o reoli'r risgiau, sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r trysorlys, ynghyd â nodi awydd yr Awdurdod am risg, a'i fesurau rheoli.

### Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR)

Mae'r gofyniad i fenthyca yn cynnwys y symudiad a ddisgwylir yn y CFR, gan ystyried y benthyciadau cyfredol, y benthyciadau y disgwylir gorffen eu had-dalu, a gofynion benthyca yn y dyfodol oherwydd y rhaglen gwariant cyfalaf. Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith hon ar sefyllfa'r trysorlys dros y tair blynedd nesaf. Mae hefyd yn tynnu sylw at y newid a ddisgwylir ym malansau buddsoddiadau.

| | Diwygiedig 2020/21 £'000 | Amcangyfrif 2021/22 £'000 | Amcangyfrif 2022/23 £'000 | Amcangyfrif 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Dyled Allanol** | | | | |
| Dyled ar 1 Ebrill | 31,744 | 30,581 | 31,505 | 31,839 |
| Benthyciadau newydd ar gyfer y CFR | 0 | 924 | 334 | 2,801 |
| Dyled sy'n Aeddfedu | -26,600 | -25,000 | -25,000 | -25,000 |
| Ailariannu Dyled sy'n Aeddfedu | 25,437 | 25,000 | 25,000 | 25,000 |
| Dyled ar 31 Mawrth | 30,581 | 31,505 | 31,839 | 34,640 |
| Newid blynyddol yn y ddyled | -1,163 | 924 | 334 | 2,801 |
| **Buddsoddiadau** | | | | |
| Cyfanswm y Buddsoddiadau fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| Newid yn y buddsoddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |

Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o newidiadau oherwydd bod newidiadau technegol wedi cael eu gwneud i'r safon adrodd ariannol sy'n llywodraethu'r dulliau o ymdrin â phrydlesau. Disgwylir i hyn gael ei gyflwyno yn ystod 2022, a bydd yn ailddosbarthu prydlesau gweithredu sy'n bodoli eisoes fel ymrwymiadau cyfalaf. Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i lwyr fesur yr effaith, a rhoddir gwybod i'r Awdurdod am hynny.

Mae'n bwysig i'r Awdurdod osod terfynau i sicrhau bod y benthyciadau'n cael eu rheoli'n ofalus, a gwneir hyn drwy ddau ddangosydd allweddol, sef:

- **Y Ffin Weithredol** - mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar y ddyled allanol debygol yn ystod y flwyddyn; nid terfyn mohono. Gallai dyled allanol wirioneddol amrywio o gwmpas y ffin hon am gyfnodau byr yn ystod y flwyddyn. Dylai weithredu fel dangosydd monitro i sicrhau nad eir yn uwch na'r terfyn awdurdodedig.

- **Y Terfyn Awdurdodedig** - terfyn na chaniateir dyled allanol yn uwch nag o, ac mae angen i'r terfyn hwn gael ei osod neu ei ddiwygio gan yr Awdurdod. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol y gellid ei fforddio yn y tymor hir, er nad yw hynny'n rhywbeth a ddymunir, ac nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hir. Dyma'r terfyn statudol a bennir dan adran 3 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Mae'r terfynau canlynol yn bodoli ar gyfer y cyfnodau 2021/2024:

| | **Diwygiedig 2020/21 £'000** | **Amcangyfrif 2021/22 £'000** | **Amcangyfrif 2022/23 £'000** | **Amcangyfrif 2023/24 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Y Ffin Weithredol | 30,581 | 31,505 | 31,839 | 34,640 |
| Y Terfyn Awdurdodedig | 32,581 | 33,505 | 33,839 | 36,640 |

## Cefndir Economaidd

Mae'r amgylchedd economaidd sy'n deillio o bandemig coronafeirws ac ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn ansicr iawn ar hyn o bryd. Mae'r effaith ar y marchnadoedd ariannol yn dal yn aneglur, ac mae Banc Lloegr wedi cadw'r gyfradd sylfaenol ar 0.1%. Mae Arlingclose, sef yr ymgynghorydd rheoli'r trysorlys ar gyfer yr Awdurdod, yn rhagweld y bydd y gyfradd sylfaenol yn aros ar 0.1% tan ddiwedd 2023 o leiaf. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau'n sefyllfa ansicr iawn, a gallai hyd yn oed arwain at gyfraddau llog negyddol.

Disgwylir i arenillion gilt barhau'n isel iawn yn y tymor canolig, gyda'r cyfraddau byrdymor yn parhau'n is neu ar sero. Yn y tymor hir, mae Arlingclose yn rhagweld y bydd arenillion gilt 10 mlynedd ac 20 mlynedd yn codi i 0.5% a 0.75%, yn eu trefn.

**Strategaeth Fenthyca 2021/22**

Y prif amcanion wrth fenthyca yw cael cyfraddau isel, lleihau risgiau a chynnal hyblygrwydd. Yn aml, mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro â'i gilydd, a rhaid cael cydbwysedd rhwng benthyciadau byrdymor rhad (sydd ar gael am tua 0.10% ar hyn o bryd) a benthyciadau cyfradd sefydlog hirdymor lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch (sef 1.5% i 2.5% ar hyn o bryd).

Bydd y Trysorydd, dan bwerau dirprwyedig, yn cymryd y ffurf fwyaf priodol o fenthyca gan ddibynnu ar y cyfraddau llog sy'n gyffredin ar y pryd, a hynny gan ystyried unrhyw risgiau ac yn unol â'r rheolaethau canlynol.

**Strwythur Aeddfedrwydd**

Dyma'r terfynau uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedrwydd y benthyciadau cyfradd sefydlog sydd gan yr Awdurdod:

| | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf |
|---|---|---|
| O dan 12 mis | 60% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 45% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 45% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd ac uwch | 100% | 0% |

**Benthyciadau Cyfraddau Amrywiol a Sefydlog**

Bydd y Trysorydd yn sicrhau bod y gymysgedd o fenthyciadau cyfraddau amrywiol a sefydlog yn cael ei chadw o fewn y terfynau canlynol:

| | % Benthyciad |
|---|---|
| Cyfradd Llog Sefydlog | 65 – 100 |
| Cyfradd Llog Amrywiol | 0 – 35 |

**Strategaeth Fuddsoddi**

Pan fo balansau arian parod yn uwch na'r llif arian parod allan a ddisgwylir, mae'r Awdurdod yn gallu buddsoddi arian parod dros ben. Byrdymor o ran natur yw'r buddsoddiadau hyn, ac maent yn achlysurol ym musnes craidd yr Awdurdod. Felly, dylai pob penderfyniad am fuddsoddi geirio lleihau risg yn hytrach na chael yr enillion mwyaf, ac mae hylifedd yn flaenoriaeth.

Mae strategaeth fuddsoddi'r Awdurdod yn bennaf yn ceisio diogelu'r prifswm a fuddsoddwyd, ac mae'n sicrhau ei fod ar gael mewn modd amserol pan fo ei angen. Ail ystyriaeth yw enillion buddsoddiad.

Bydd y Trysorydd yn cadw rhestr o'r holl sefydliadau ariannol y gall y gwasanaeth eu defnyddio i fuddsoddi arian. Bydd y rhestr o bartïon i gontract yn ddibynnol ar y meini prawf canlynol:

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn |
|---|---|---|
| **Banciau** | Mae holl fanciau'r DU, a'u his-gwmnïau yn meddu ar sgoriau da (Fitch neu gyfwerth). Ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i ddiffinio fel hirdymor (BBB) | £5m |
| **Llywodraeth Ganolog** | Swyddfa Rheoli Dyledion | Diderfyn |
| **Money Market Funds (MMF)** | Dim ond ar y cyd â chyngor gan Arlingclose. | £1m y gronfa |
| **Awdurdodau Lleol** | Pob un heblaw'r rhai sy'n agored i gyfyngu ar dreth gyngor a phraeseptau o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | £2m |
| **Cymdeithasau Adeiladu** | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector banciau). | £2m |
| **Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn)** | Cymdeithasau adeiladu sydd heb sgôr, ond sydd ag asedau'n werth £1biliwn neu fwy. | £2m/9 mis |

## 6.0 Dangosyddion Darbodus

Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf. Prif amcan y Cod Darbodus yw sicrhau bod y cynlluniau buddsoddi cyfalaf sydd gan yr Awdurdod yn rhai fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy.

I gynorthwyo'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, mae'r Cod Darbodus yn mynnu bod rhaid mabwysiadu dangosyddion sydd naill ai'n crynhoi'r gweithgarwch cyfalaf a ddisgwylir, neu'n cyflwyno terfynau ar y gweithgarwch hwnnw. Mae'r dangosyddion hyn yn adlewyrchu canlyniad systemau arfarnu cyfalaf yr Awdurdod, ac mae'n sicrhau bod rheolaethau'n bodoli, gan gynnwys ymwybyddiaeth briodol o risgiau, a rheolaeth briodol o'r rheini.

Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r dangosyddion ar gyfer y cyfnod 2020/2024, ac mae'n adlewyrchu'r cynlluniau cyfalaf o fewn y strategaeth ariannol tymor canolig a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 9 Tachwedd 2020. Y dangosyddion hyn sy'n darparu'r fframwaith rheoli ar gyfer yr Awdurdod.

| | | Rhagolwg 2020/21 (£'000) | Cyllideb 2021/22 (£'000) | Cyllideb 2022/23 (£'000) | Cyllideb 2023/24 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 1,031 | 3,082 | 2,576 | 5,176 |
| 2 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 30,581 | 31,505 | 31,839 | 34,640 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig | 32,581 | 33,505 | 33,839 | 36,640 |
| 4 | Ffin Weithredol | 30,581 | 31,505 | 31,839 | 34,640 |
| 5 | Cymhareb rhwng y Costau Cyllido a'r Gwariant Net | 7.4% | 7.4% | 7.6% | 7.6% |
| 6 | Buddsoddiadau | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| 7 | Benthyciadau ar gyfraddau llog sefydlog fel % o'r holl fenthyciadau | Isafswm 65%<br>Uchafswm 100% | | | |
| 8 | Benthyciadau cyfradd sefydlog fel % o'r holl fenthyciadau | Isafswm 0%<br>Uchafswm 35% | | | |
| 9 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | | | | |
| | | Terfyn Uchaf | | Terfyn Isaf | |
| | Dan 12 mis | 60% | | 0% | |
| | 12 mis i 2 flynedd | 45% | | 0% | |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 45% | | 0% | |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 75% | | 0% | |
| | 10 mlynedd ac uwch | 100% | | 0% | |

## 7.0 Trefniadau Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu ar gyfer y strategaeth gyfalaf yn cael ei thanategu gan nifer o godau ymarfer, fel yr amlinellir yn y ddogfen hon. Caiff y Dangosyddion Darbodus eu monitro a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn ariannol. Tynnir sylw at amrywiadau, ac ymchwilir iddynt.

Y Trysorydd sydd â rheolaeth a throsolwg, ac mae'r penderfyniadau o ddydd i ddydd wedi'u dirprwyo i'r swyddogion. Caiff y cynlluniau gwariant cyfalaf eu rheoli gan y Gwasanaeth, ac mae'r trefniadau cyllido a rheoli'r trysorlys wedi'u dirprwyo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o gontract Gwasanaethau Ariannol.

Caiff y swyddogion a'r staff eu cefnogi drwy benodi ymgynghorwyr proffesiynol, sef Arlingclose Limited, sy'n darparu gwasanaethau proffesiynol ar gyfer Rheoli Trysorlys, felly mae modd sicrhau rheolaeth briodol ar risgiau.

*This document is available in English* **Rhif ar yr Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Mawrth 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Macarthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (01745 535286)** |
| Pwnc | **Datganiad ar Bolisi Tâl 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Hysbysu Aelodau am gyfrifoldeb yr Awdurdod i lunio datganiad ar bolisi tâl yn flynyddol yn unol â'r Ddeddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf).

2 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) yn llunio Datganiad ar Bolisi Tâl bob blwyddyn, i'w gymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

3 Mae'r papur hwn yn nodi'r Datganiad ar Bolisi Tâl ar gyfer 2021/22.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

4 Rhaid i'r Awdurdod baratoi a chymeradwyo datganiad ar bolisi tâl yn flynyddol yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Rhaid i'r datganiad gydymffurfio hefyd â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar "Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru" a gyhoeddwyd yn ystod Mai 2017.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL NEU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r adroddiad wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**ARGYMHELLIAD**

6 Gofynnir i'r Aelodau:
- (i) nodi gofynion Deddf Lleoliaeth Leol 2011;
- (ii) cymeradwyo'r datganiad ar bolisi tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

**CEFNDIR**

7 Rhaid i ddatganiadau ar bolisi tâl gael eu llunio yn unol â Rhan 1; Pennod 8 (Adrannau 38 – 43) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Mae'r cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru yn crynhoi prif elfennau'r datganiad polisi tâl, sy'n cynnwys:

(a) gwybodaeth am dâl ei brif swyddogion,

(b) tâl ei weithwyr sy'n cael y cyflogau isaf, ac

(c) y berthynas rhwng:

    (i) tâl ei brif swyddogion, a
    (ii) tâl ei weithwyr nad ydynt yn brif swyddogion.

8 Rhaid i'r datganiad nodi'r canlynol:

(a) diffiniad o'r "gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf" a fabwysiedir gan yr Awdurdod i ddiben y datganiad, a

(b) rhesymau'r Awdurdod dros fabwysiadu'r diffiniad hwnnw.

9 Rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys polisïau'r Awdurdod sy'n ymwneud â'r canlynol:

(i) lefel ac elfennau'r tâl ar gyfer pob prif swyddog;

(ii) tâl prif swyddogion wrth gael eu recriwtio;

(iii) codiadau ac ychwanegiadau i'r taliadau ar gyfer pob prif swyddog;

(iv) y defnydd o dâl yn gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer prif swyddogion;

(v) y defnydd o fonysau ar gyfer prif swyddogion;

(vi) y ffordd o drin taliadau i brif swyddogion pan fyddant yn darfod swydd dan yr awdurdod neu pan fydd eu cyflogaeth dan yr awdurdod yn dod i ben;

(vii) cyhoeddi a mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â thalu prif swyddogion.

**GWYBODAETH**

10 Pwrpas y datganiad ar bolisi tâl yw darparu tryloywder o ran dull yr Awdurdod o bennu cyflogau ei weithwyr, yn enwedig rhai ei brif swyddogion a'r gweithwyr sydd ar y gyfradd gyflog isaf, a hynny drwy nodi'r dulliau o benderfynu ar y cyflogau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Datganiad ar Bolisi Tâl yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau am gyflogau, ac yn enwedig benderfyniadau am y cyflogau uchaf, gan gyfrannu at y gwaith o sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod a'i fod yn gallu dangos ei fod yn dyrannu tâl yn deg a chyfartal. |
| Cyllideb | Mae'r dyfarniadau cyflog a gytunwyd ac a gyhoeddwyd gan y Cyd-Gynghorau Cenedlaethol yn cael eu hystyried wrth osod cyllideb flynyddol yr Awdurdod. |
| Cyfreithiol | O dan adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân i lunio Datganiad ar Bolisi Tâl erbyn 31ain Mawrth cyn blwyddyn y datganiad. |
| Staffio | Mae'r Datganiad ar Bolisi Tâl yn cefnogi egwyddorion trylowyder, cyflog cyfartal a chefnogaeth i'r staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae triniaeth gyfartal mewn perthynas â chyflog yn rhan bwysig o amcanion Cydraddoldeb yr ATA. |
| Risgiau | Mae peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn arwain at risg cyfreithiol a pherygl i enw da. |

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
# Datganiad ar Bolisi Tâl
# 2021/22

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Prif swyddogaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yw:

- cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig *Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004*, a *Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005* (a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006), a *Chynllun Cyfuno 1995*;
- cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r cyfraniad gan y cynghorau cyfansoddol, a
- monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, a delio ag unrhyw amrywiadau mawr, gan gynnwys penderfynu ar unrhyw gyfraniadau atodol.

1.2 Er mwyn cyflawni ei swyddogaeth, mae'r Awdurdod yn penodi staff i gyflawni dyletswyddau ar ei ran, ac wrth wneud hynny rhaid iddo ddilyn yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ar gyflogaeth. Mae'r Awdurdod hefyd yn dilyn nifer o egwyddorion allweddol sy'n sicrhau fforddiadwyedd, cyflog cyfartal, trylowyder a chymorth ar gyfer tâl isel.

1.3 Diben y ddogfen hon yw bodloni ymrwymiadau cyfreithiol yr Awdurdod yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011 a darparu gwybodaeth am dull yr Awdurdod o bennu taliadau ei weithwyr. Mae'n darparu gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol i'r Prif Swyddogion a'r gweithwyr sydd ar y raddfa gyflog isaf. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dulliau ar gyfer pennu taliadau i'r holl staff.

1.4 Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrilll 2021 a 31 Mawrth 2022, ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch taliadau, ac yn enwedig benderfyniadau am gyflogau uwch swyddogion.

1.5 Mae'r datganiad ar bolisi tâl yn ddogfen flynyddol a gaiff ei pharatoi a'i cymeradwyo gan yr Awdurdod cyn y flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi.

## 2.0 Y fframwaith ddeddfwriaethol

2.1 Mae adran 38 (1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr lunio datganiad ar bolisi tâl ers 2012/2013 ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol wedi hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi ystyriaeth ddyledus i unrhyw ganllawiau gan Weinidogion Cymru. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ym mis Mai 2017, sef "Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru".

2.2 Mae’r Ddeddf yn diffinio tâl yn eang, ac yn cynnwys cyflog, lwfansau, buddion mewn ffyrdd eraill, codiadau/helaethiadau mewn hawliadau pensiwn a thaliadau ar derfyn cyflogaeth.

2.3 Wrth bennu cyflogau a thâl ei weithwyr, rhaid i’r Awdurdod gydymffurfio â’r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Ran Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a phan fo’n berthnasol, Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006.

2.4 Mae’r Awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw gamwahaniaethu o ran cyflogau yn ei strwythur cyflogau i ateb ei rwymedigaethau dan ofynion cyflog cyfartal Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae’r broses gwerthuso swyddi wedi’u gwreiddio yn y sefydliad i sicrhau bod modd cyfiawnhau’n wrthrychol unrhyw wahaniaethau rhwng cyflogau gweithwyr a bod cyflogau’n ymwneud yn uniongyrchol ag anghenion, gofynion a chyfrifoldebau’r rôl.

## 3.0 Gwneud penderfyniadau, gan gynnwys ystyried gwerth am arian

3.1 Mae’r polisi hwn yn gymwys i holl weithwyr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

3.2 Mae’r Awdurdod o blaid trefniadau cyd-fargeinio ac mae’n cefnogi’r darpariaethau presennol ar lefel genedlaethol sy’n llywodraethu tâl ac amodau gwasanaeth y grwpiau canlynol o weithwyr:

- Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd mewn Gwasanaethau Tân ac Achub, Cyfansoddiad a Chynllun Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Aur)
- Cyd-bwyllgor Negodi ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol; Cyfansoddiad, Amodau Gwasanaeth, Cyflogau (Y Llyfr Glas)
- Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, Cynllun Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Llwyd)
- Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Llywodraeth Leol (Y Llyfr Gwyrdd).

3.3 Caiff lefelau taliadau eu hadolygu bob blwyddyn trwy’r trefniadau cyd-fargeinio hyn, a bydd unrhyw ddyfarniad “costau byw” sy’n gysylltiedig ag amodau contractiol yn cael eu gweithredu pan ddaw hysbysiad gan y corff negodi perthnasol.

3.4 Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw ddyfarniad “costau byw” contractiol ar gyfer ei brif swyddogion yng nghyd-destun penderfyniadau tebyg ynghylch gweithwyr sy’n cael llai o gyflog ac yn unol â chanlyniad y cyd-fargeinio a amlinellir uchod.

3.5 Mae pob swydd sydd ar amodau’r Cyd-gyngor ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn agored i gynllun gwerthuso swyddi’r Awdurdod, sy’n mynd ati’n wrthrychol i asesu pob rôl ar adeg creu swydd newydd, newidiadau i swyddi sy’n bodoli eisoes, neu ar adegau cyfnodol i benderfynu ar raddfa gyflog deg sy’n gymharol i’r grŵp hwn o staff. Wrth roi gorau’n wirfoddol i’w dyletswyddau, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol.

3.6 Yn unol â'r cyfansoddiad, yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r gyllideb ariannol flynyddol gan gynnwys pa mor fforddiadwy yw costau gweithwyr.

## 4.0 Rôl y Prif Swyddog Tân

4.1 Y Prif Swyddog Tân yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ac sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth. Mae'r swydd yn benodiad llawn amser; caiff deiliaid y swydd eu penodi yn ôl teilyngdod ac yn erbyn meini prawf gwrthrychol yn dilyn proses gystadleuol. Mae'r broses ddethol dan oruchwyliaeth Panel Penodi sy'n cynnwys aelodau o'r Awdurdod.

4.2 Mae'r Prif Swyddog Tân yn gweithio'n agos â'r aelodau etholedig i gyflawni nodau strategol yr Awdurdod. Mae gan y sefydliad gyllideb refeniw flynyddol sydd tua £37 miliwn a chyllideb gyfalaf flynyddol sy'n £3 miliwn, ac mae'n gyfrifol am amrywiaeth eang o wasanaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, gan gyflogi rhyw 862 o staff.

## 5.0 Tâl y Prif Swyddogion

5.1 Mae polisi tâl yr Awdurdod ar dalu prif swyddogion, gan gynnwys y Prif Swyddog Tân, yn cyd-fynd â' threfniadau Cyd-Gyngor yr NJC. O dan y trefniadau hyn, caiff cyflog Rheolwr Brigâd ei adolygu bob blwyddyn ar lefel genedlaethol, sy'n darparu isafswm cyflog ar gyfer prif swyddogion tân.

5.2 Wrth gael eu penodi, bydd tâl prif swyddogion ar y cyflog sylfaenol ar bwynt unigol sy'n gysylltiedig â'r farchnad sy'n gyffredin ar adeg penodi, a bydd yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod. Hefyd, darperir car er mwyn cyflawni'r swydd. Mae'r taliadau i'r Prif Swyddog Tân hefyd yn destun adolygiad annibynnol rheolaidd o'r cyflog. Mae'r broses hon yn meincnodi lefelau cyflog y prif swyddog o gymharu'n berthnasol ag awdurdodau tân ac achub eraill, a gyda'r farchnad gyflogaeth yn ehangach.

5.3 Mae'r talidau i brif swyddogion hefyd yn destun adolygiad annibynnol rheolaidd o'r cyflog, a'r farchnad cyflogaeth yn ehangach.

5.4 Nid yw'r Awdurdod yn talu bonysau, nac ychwanegiadau megis tâl yn gysylltiedig â pherfformiad. Wrth roi gorau i'w dyletswyddau'n wirfoddol, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol i brif swyddogion.

5.5 Yn dilyn ymddiswyddiad neu ymddeoliad o'u dyletswyddau, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol ac eithrio'r rhai i ddiben cyflogau neu daliadau a wneir i unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol wrth ymddeol. Gall taliadau o'r fath gynnwys cyflog a delir *in lieu* o gyfnod rhybudd, hawliadau buddion pensiwn a thâl gwyliau.

5.6 Mewn amgylchiadau pan fo pecyn taliad diswyddo yn cael ei ystyried wrth gytuno ar derfynu dyletswyddau heblaw am y rhesymau a amlinellir uchod, bydd yr Awdurdod yn cael cynnig pleidleisio cyn i unrhyw becyn taliad diswyddo gael ei gymeradwyo ar gyfer prif swyddogion.

5.7 Caiff gwybodaeth ar daliadau i'r prif swyddogion ei chyhoeddi fel rhan o Ddatganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Caiff y rhain eu cyhoedd ar wefan yr Awdurdod.

5.8 Caiff treuliau, fel ar gyfer trên, milltiroedd car, llety dros nos a pharcio eu hawlio'n ôl yn unol â pholisi'r sefydliad ar deithio a chynhaliaeth sy'n gymwys i'r holl weithwyr.

5.9 Mae'r prif swyddogion yn aelodau o'r cynllun pensiwn perthnasol. Nid yw'r Awdurdod yn caniatáu unrhyw gynyddiadau neu helaethiadau i'r pensiwn y tu hwnt i'r trefniadau safonol.

5.10 3 mis yw cyfnod rhybudd swyddi prif swyddogion.

## 6.0 Staff Uwch

6.1 I ddibenion y datganiad hwn ar bolisi tâl, nid yw'r term "prif swyddog" wedi'i gyfyngu i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Mae'n cynnwys y rhai sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Tân. Mae hyn yn cynnwys y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a Phrif Swyddogion Cynorthwyol.

6.2 Mae'r swyddi'n dod dan amryw o delerau ac amodau:

| **Grŵp o Weithwyr** | **Telerau ac Amodau** | **Buddion eraill** | **Trefniadau pensiwn** |
|---|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân | Llyfr Aur | Car wedi'i ddarparu | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Swyddog Monitro | Yn cael ei ddarparu gan swyddog a enwir o Gyngor Sir y Fflint gan drefniant contract allanol | | |
| Trysorydd (swyddog adran 151) | Contract rhan amser wedi'i negodi y tu allan i delerau ac amodau cenedlaethol. | | |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | Llyfr Aur | Car wedi'i ddarparu | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | Llyfr Aur | Car wedi'i ddarparu | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol **neu** Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | Llyfr Glas | Car wedi'i ddarparu | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |

## 7.0 Rheoli Talent

7.1 Mae canolbwynt strategaeth yn Awdurdod yn canolbwyntio ar gefnogi a datblygu ansawdd arweinyddiaeth yn y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys cynyddu galluedd y timau rheoli presennol, cynllunio ar gyfer datblygu arweinwyr y dyfodol, hyrwyddo gwerthoedd arweinyddol ledled y sefydliad a denu arweinwyr effeithiol, pan fo'n briodol, o sectorau eraill.

## 8.0 Tâl yn gysylltiedig â pherfformiad

8.1 Nid oes unrhyw gynllun tâl yn gysylltiedig â pherfformiad ar waith ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw swydd yn y Gwasanaeth.

## 9.0 Talu staff eraill ar wahân i'r prif swyddogion

9.1 Mae polisi tâl yr Awdurdod ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn swyddogion tân yn gyson â chyfraddau cyflog y cytunir arnynt yn genedlaethol. Cytunir ar y rhain bob blwyddyn, ac maent wedi'u nodi yn yr atodiadau sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn.

| Grŵp o Weithwyr | Telerau ac Amodau | Buddion eraill | Trefniadau Pensiwn |
|---|---|---|---|
| Swyddogion (Rheolwyr Gorsafoedd, Rheolwyr Grŵp a Rheolwyr Maes) | Llyfr Llwyd | Car les yn cael ei ddarparu ar gyfer staff sydd ar rota dyletswydd hyblyg | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Diffoddwyr Tân | Llyfr Llwyd | DIM | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Diffoddwyr Tân dan hyfforddiant | Llyfr Llwyd | DIM | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Staff yr Ystafell Reoli | Llyfr Llwyd | DIM* | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Diogelwch Tân ac Atal Tanau | Llyfr Gwyrdd | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Llyfr Gwyrdd | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Prentisiaid | Llyfr Gwyrdd | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| *Darperir car prydles ar sail ddewisol ar gyfer nifer fach o swyddi os oes rhaid gwneud siwrneiau sylweddol neu deithio'n aml | | | |

9.2 Mae'r gweithiwr sy'n cael y cyflog isaf yn cael ei gyflogi ar bwynt colofn 16 Gwasanaethau Llywodraeth Leol Cyd-Gyngor yr NJC (Llyfr Gwyrdd), sy'n cyfateb i £19,698 y flwyddyn o 1 Ebrill 2020 ymlaen. Bydd yr Awdurdod yn cyflogi prentisiaid weithiau, sydd heb fod yn cael eu cynnwys o fewn y diffiniad o'r 'gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf' gan nad ydynt yn cael eu cyflogi dan gontractau cyflogaeth.

9.3 Argymhelliad y canllawiau statudol dan y Ddeddf Lleoliaeth 2011 yw defnyddio lluosrifau cyflogau fel ffordd o fesur y berthynas rhwng cyfraddau cyflogau ymhlith y gweithlu ac uwch reolwyr, fel sydd yn Adolygiad Hutton o Dâl Teg yn y Sector Cyhoeddus (2010).

9.4 Mae'r lefelau tâl 2020/21 yn yr Awdurdod yn diffinio mai 1:6:64 yw'r lluosrif rhwng cyfartaledd graddau gweithwyr sy'n cael y cyflog isaf (cyflog sylfaenol yn cyfateb i lawn amser) a'r Prif Swyddog Tân a rhwng y gweithiwr sy'n cael y cyflog isaf.

9.5 Gofynnwyd i adroddiad Hutton ar dâl teg yn y sector cyhoeddus ystyried yr achos dros gael terfyn penodol ar wasgariad cyflogau yn y sector cyhoeddus drwy ei gwneud yn ofynnol na all yr un rheolwr yn y sector cyhoeddus ennill mwy nag 20 gwaith y gweithiwr sy'n cael y cyflog isaf yn y sefydliad. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y berthynas ag enillion canolrifol yn fesur mwy perthnasol, ac mae Cod Ymarfer Argymelledig y Llywodraeth ar Dryloywder Data yn argymell cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a chyflog canolrifol holl weithlu'r Awdurdod. 1:4.12 yw'r lluosrif rhwng yr enillion canolrifol sy'n cyfateb i lawn amser (ac eithrio RDS), a'r Prif Swyddog Tân. Sylwch fod y ffigwr hwn yn cynnwys cyflogau llawn amser yn unig, a'u bod yn eithrio lwfansau.

9.6 Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi gwybodaeth yn ei ddatganiad ariannol blynyddol ynglŷn â thalu Prif Swyddogion, enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad, a'r gymhareb rhwng y ddau ffigwr hwn, a hynny er mwyn dangos y berthynas rhwng y ddau.

## 10.0 Cymorth i staff sy'n cael cyflogau is

10.1 Mae holl weithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael eu talu'n uwch na'r cyflog byw. Cynigir amryw o gynlluniau cefnogi eraill, megis y cynllun seiclo i'r gwaith, Rhaglen Cymorth Gweithwyr, cwnsela, gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol a thalebau gofal plant.

10.2 Hefyd cynigir cynllun ffisiotherapi i'r holl weithwyr. Mae gweithwyr yn derbyn cymorth ariannol i gyfeirio eu hunain am therapi i'w cynorthwyo i wella o anaf cyhyr ysgerbydol neu anhwylderau eraill.

10.3 Mae'r ystod o fuddion hyblyg hefyd wedi'u cyflwyno megis gostyngiadau corfforaethol. Bydd buddion a gwobrau nad ydynt yn gyflogau yn gymorth i ddatblygu pecyn cyflogaeth effeithiol ac yn defnyddio systemau gwobrwyo lle mae'r gweithwyr yn gallu ystwytho'r gwobrau er mwyn cael mwy o'r elfen sy'n bwysig iddyn nhw ar wahanol gyfnodau o'u gyrfaoedd.

## 11.0 Ychwanegiadau at Gyflog Gweithwyr Eraill

11.1 Pan fo'n briodol, ac yn unol ag amodau gwasanaeth cenedlaethol neu gytundeb lleol, gall unigolion dderbyn lwfans yn ychwanegol at eu cyflog. Dyma enghreifftiau, ond ni chyfyngir i'r enghreifftiau hyn:

- darpariaeth ar alwad neu'r tu allan i oriau
- argaeledd parhaus
- cyfrifoldeb ychwanegol
- rhent, tanwydd a lwfans golau
- lwfans ffôn
- cyfraniadau pensiwn y cyflogwr
- lwfansau milltiroedd.

## 12.0 Honoraria

12.1 Gall aelod o staff sy'n cyflawni dyletswyddau y tu allan i gwmpas ei swydd ei hun dros gyfnod estynedig gael taliad unigol ychwanegol yn ddibynnol ar amgylchiadau'r achos. Dyma enghreifftiau:

- pan fo gweithiwr yn cyflawni gwaith ychwanegol sylweddol dros dro, sydd yn mynd y tu hwnt i'w gyfrifoldebau arferol; neu
- pan fo gweithiwr yn cyflawni gwaith sylweddol dros oriau arferol ei gontract, ond sydd heb fod yn gymwys i daliadau goramser oherwydd ei leoliad ar y raddfa gyflog.

12.2 Byddai unrhyw benderfyniad am honoraria arfaethedig i brif swyddogion angen ei gymeradwyo gan yr Awdurdodi.

12.3 Bydd penderfyniadau ynghylch yr holl staff eraill yn cael ei ystyried gan y Pennaeth Adran priodol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau).

## 13.0 Polisi Ymadael

13.1 Wrth roi gorau i ddyletswyddau'n wirfoddol, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol ac eithrio'r rhai i ddibenion cyflog neu daliadau a wneir i unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol ar adeg ymddeol. Gallai taliadau o'r fath gynnwys cyflog a delir *in lieu* o gyfnod rhybudd, hawliadau i fuddion pensiwn, tâl gwyliau ac unrhyw ffioedd neu lwfansau a delir.

13.2 Gall gweithwyr a amodir i'r Cyd-Gyngor ar gyfer Gwasanaeth Llywodraeth Leol, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod, gael hawl i bensiwn ychwanegol a/neu taliadau am ddileu swydd pan fo'r Awdurdod yn rhoi cychwyn ar derfynu cyflogaeth yn gynnar mewn perthynas â Rheoliadau Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd) – y cyfeirir atynt fel arfer fel y Rheoliadau Iawndal yn ôl Disgresiwn.

13.3 Mae gan y Gwasanaeth bolisi ar gyfer trefniadau diswyddo neu ymadael.

13.4 Mae cyn-weithwyr yn cael eu hailgyflogi weithiau gan y Gwasanaeth Tân ac Achub pan fo meini prawf penodol wedi eu bodloni. Pan fo'r enillion a'r pensiwn gyda'i gilydd yn uwch na'r cyflog terfynol wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant yn y gyflogaeth wreiddiol, mae'r pensiwn yn agored i'w leihau yn unol â rheoliadau'r cynllun.

## 14.0 Trefniadau oddi ar y gyflogres

14.1 Nid yw'r Awdurdod fel arfer yn cyflogi pobl drwy ddefnyddio trefniadau oddi ar y gyflogres. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ystyrir y rhain, a hynny ar gyfer darnau arbenigol o waith pan nad oes galluedd neu arbenigedd ar gael yn fewnol. Mae gan yr Awdurdod drefniadau i sicrhau bod yr offer dangos statws cyflogaeth, a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EM, yn cael ei gwblhau ar gyfer pob cyflenwr cyn gwneud unrhyw daliadau.

## 15.0 Atodiadau

Atodiad 1 Matrics cyflogau'r prif swyddogion

Atodiad 2 Cyfraddau cyflog cyd-gyngor yr NJC
- 2.1 Swyddi diffoddwyr tân
- 2.2 Y System Ddyletswydd ar gael yn ôl y galw (RDS)
- 2.3 Swyddi'r Ystafell Reoli
- 2.4 Swyddi iau ac anweithredol yn yr ystafell reoli

Atodiad 3 Cyd-gyngor yr NJC ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol, matris cyflogau

**Atodiad 1**

**Cyfraddau Cyflogau Prif Swyddogion**
**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

| | CYFLOG (01/01/20) | % o'r PST |
|---|---|---|
| PST* | £130,751 | |
| DBST* | £101,593 | 77.7% |
| PSTC* | £94,463 | 72.2% |
| PSC | £64,141 (01/04/20) | 49.1% |

- yn cynnwys tâl am drefniadau dyletswydd barhaus

| **Darparu gwasanaeth yn allanol** | **Gwerth (blynyddol)** |
|---|---|
| Swyddog Monitro | £17,468 (ac eithrio TAW) |
| Swyddog Adran 151 | £7,812 |

ATODIAD 2.1

# SWYDDI DIFFODDWYR TÂN – CYFRADDAU CYFLOGAU O 1 GORFFENNAF 2020 YMLAEN

| | Cyflog sylfaenol<br><br>£ | Cyfradd sylfaenol yn ôl yr awr<br>£ | Cyfradd goramser<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Diffoddwr Tân** | | | |
| Dan hyfforddiant | 23,833 | 10.88 | 16.32 |
| Datblygu | 24,826 | 11.34 | 17.01 |
| Cymwys | 31,767 | 14.51 | 21.77 |
| **Rheolwr Criw** | | | |
| Datblygu | 33,763 | 15.42 | 23.13 |
| Cymwys | 35,219 | 16.08 | 24.12 |
| **Rheolwr Gwylfa** | | | |
| Datblygu | 35,981 | 16.43 | 24.65 |
| Cymwys A | 36,980 | 16.89 | 25.34 |
| Cymwys B | 39,383 | 17.98 | 26.97 |
| **Rheolwr Gorsaf** | | | |
| Datblygu | 40,964 | 18.71 | 28.07 |
| Cymwys A | 42,194 | 19.27 | 28.91 |
| Cymwys B | 45,183 | 20.63 | 30.95 |
| **Rheolwr Grŵp** | | | |
| Datblygu | 47,179 | 21.54 | Amherthnasol |
| Cymwys A | 48,594 | 22.19 | “ |
| Cymwys B | 52,301 | 23.88 | “ |
| **Rheolwr Maes** | | | |
| Datblygu | 55,389 | 25.29 | Amherthnasol |
| Cymwys A | 57,049 | 26.05 | “ |
| Cymwys B | 60,756 | 27.74 | “ |

ATODIAD 2.2

## SWYDDI DIFFODDWYR TÂN – CYFRADDAU CYFLOG O 1 GORFFENNAF 2020 YMLAEN (Y SYSTEM DDYLETSWYDD AR GAEL YN ÔL Y GALW (RDS))

| | (1) £ y flwyddyn | (2) £ y flwyddyn | (3) £ y flwyddyn | (4) £ yr achlysur |
|---|---|---|---|---|
| **Diffoddwr Tân** | | | | |
| Dan hyfforddiant | 2,383 | 1,192 | 10.88 | 4.18 |
| Datblygu | 2,483 | 1,241 | 11.34 | 4.18 |
| Cymwys | 3,177 | 1,588 | 14.51 | 4.18 |
| **Rheolwr Criw** | | | | |
| Datblygu | 3,376 | 1,688 | 15.42 | 4.18 |
| Cymwys | 3,522 | 1,761 | 16.08 | 4.18 |
| **Rheolwr Gwylfa** | | | | |
| Datblygu | 3,598 | 1,799 | 16.43 | 4.18 |
| Cymwys A | 3,698 | 1,849 | 16.89 | 4.18 |
| Cymwys B | 3,938 | 1,969 | 17.98 | 4.18 |
| **Rheolwr Gorsaf** | | | | |
| Datblygu | 4,096 | 2,048 | 18.71 | 4.18 |
| Cymwys A | 4,219 | 2,110 | 19.27 | 4.18 |
| Cymwys B | 4,518 | 2,259 | 20.63 | 4.18 |
| **Rheolwr Grŵp** | | | | |
| Datblygu | 4,096 | 2,048 | 18.71 | 4.18 |
| Cymwys A | 4,219 | 2,110 | 19.27 | 4.18 |
| Cymwys B | 4,518 | 2,259 | 20.63 | 4.18 |
| **Rheolwr Maes** | | | | |
| Datblygu | 5,539 | 2,769 | 25.29 | 4.18 |
| Cymwys A | 5,705 | 2,852 | 26.05 | 4.18 |
| Cymwys B | 6,076 | 3,038 | 27.74 | 4.18 |

Mae Colofn 1 yn dangos y tâl cadw blynyddol llawn (10% o’r cyflog blynyddol sylfaenol llawn amser, fel y nodir yn Atodiad A)
Mae Colofn 2 yn dangos y tâl cadw ar gyfer gweithwyr ar y system ddyletswydd criw dydd (5% o’r cyflog blynyddol sylfaenol llawn amser, fel y nodir yn Atodiad A)
Mae Colofn 3 yn dangos y gyfradd fesul awr am waith a wneir
Mae Colofn 4 yn dangos y taliad amharu am bob tro maent yn cael eu galw allan

ATODIAD 2.3

## SWYDDI PENODOL YN YR YSTAFELL REOLI – CYFRADDAU CYFLOGAU O 1 GORFFENNAF 2020 YMLAEN

| | Cyflog blynyddol sylfaenol £ | Cyfradd sylfaenol yn ôl yr awr £ | Cyfradd goramser £ |
|---|---|---|---|
| **Diffoddwr Tân (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Dan hyfforddiant | 22,641 | 10.34 | 15.51 |
| Datblygu | 23,585 | 10.77 | 16.16 |
| Cymwys | 30,179 | 13.78 | 20.67 |
| | | | |
| **Rheolwr Criw (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 32,075 | 14.65 | 21.98 |
| Cymwys | 33,458 | 15.28 | 22.92 |
| | | | |
| **Rheolwr Gwylfa (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 34,182 | 15.61 | 23.42 |
| Cymwys A | 35,131 | 16.04 | 24.06 |
| Cymwys B | 37,414 | 17.08 | 25.62 |
| | | | |
| **Rheolwr Gorsaf (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 38,916 | 17.77 | 26.66 |
| Cymwys A | 40,084 | 18.30 | 27.45 |
| Cymwys B | 42,924 | 19.60 | 29.40 |
| | | | |
| **Rheolwr Grŵp (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 44,820 | 20.47 | **Ddim yn berthnasol** |
| Cymwys A | 46,164 | 21.08 | “ |
| Cymwys B | 49,686 | 22.69 | “ |

*(95% o gyflog blynyddol sylfaenol swydd diffoddwr tân, fel y nodir yn Atodiad A)

ATODIAD 2.4

**STAFF ANWEITHREDOL – CYFRADDAU CYFLOG O 1af GORFFENNAF 2020 YMLAEN**

| | £ y flwyddyn |
|---|---|
| **Yn cyfateb i Weithredwr yr Ystafell Reoli** | |
| Yn ystod y chwe mis cyntaf | 20,299 |
| Ar ôl chwe mis ac yn ystod yr 2il flwyddyn | 21,199 |
| Yn ystod y 3edd flwyddyn | 22,204 |
| Yn ystod y 4edd flwyddyn | 23,297 |
| Yn ystod y 5ed flwyddyn | 25,374 |
| **Yn cyfateb i Weithredwr Arweiniol yr Ystafell Reoli** | 27,173 |
| **Yn cyfateb i Uwch Weithredwr yr Ystafell Reoli** | |
| Yn ystod blwyddyn 1af yn y rheng | 27,869 |
| Yn ystod yr 2il flwyddyn yn y rheng | 28,926 |

**DIFFODDWYR TÂN IAU – CYFRADDAU CYFLOG O 1af GORFFENNAF 2020**

| | £ y flwyddyn |
|---|---|
| 16 mlwydd oed | 11,026 |
| 17 mlwydd oed | 11,847 |
| 18 mlwydd oed | 23,833 |

| SCP | | 1 Ebrill 2020 |
|---|---|---|
| | y flwyddyn | yr awr* |
| 1 | £17,842 | £9.25 |
| 2 | £18,198 | £9.43 |
| 3 | £18,562 | £9.62 |
| 4 | £18,933 | £9.81 |
| 5 | £19,312 | £10.01 |
| 6 | £19,698 | £10.21 |
| 7 | £20,092 | £10.41 |
| 8 | £20,493 | £10.62 |
| 9 | £20,903 | £10.83 |
| 10 | £21,322 | £11.05 |
| 11 | £21,748 | £11.27 |
| 12 | £22,183 | £11.50 |
| 13 | £22,627 | £11.73 |
| 14 | £23,080 | £11.96 |
| 15 | £23,541 | £12.20 |
| 16 | £24,012 | £12.45 |
| 17 | £24,491 | £12.69 |
| 18 | £24,982 | £12.95 |
| 19 | £25,481 | £13.21 |
| 20 | £25,991 | £13.47 |
| 21 | £26,511 | £13.74 |
| 22 | £27,041 | £14.02 |
| 23 | £27,741 | £14.38 |
| 24 | £28,672 | £14.86 |
| 25 | £29,577 | £15.33 |
| 26 | £30,451 | £15.78 |
| 27 | £31,346 | £16.25 |
| 28 | £32,234 | £16.71 |
| 29 | £32,910 | £17.06 |
| 30 | £33,782 | £17.51 |
| 31 | £34,728 | £18.00 |
| 32 | £35,745 | £18.53 |
| 33 | £36,922 | £19.14 |
| 34 | £37,890 | £19.64 |
| 35 | £38,890 | £20.16 |
| 36 | £39,880 | £20.67 |
| 37 | £40,876 | £21.19 |
| 38 | £41,881 | £21.71 |
| 39 | £42,821 | £22.20 |
| 40 | £43,857 | £22.73 |
| 41 | £44,863 | £23.25 |
| 42 | £45,859 | £23.77 |
| 43 | £46,845 | £24.28 |

*****cyfrifir y gyfradd yn ôl yr awr drwy rannu’r cyflog blynyddol gyda 52.143 wythnos (sef 365 diwrnod wedi’i rannu â 7) yna ei rannu gyda 37 awr (sef yr wythnos waith safonol yn ‘Llyfr Gwrdd’ y Cytundeb Cenedlaethol)

*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Mawrth 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (01745 535286)** |
| Pwnc | **Strategaeth Cronfeydd Ariannol wrth gefn** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Strategaeth Cronfeydd Ariannol – wedi'i diweddaru (y Strategaeth) i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Cafodd y Strategaeth Cronfeydd Ariannol ei chyflwyno ddiwethaf i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mawrth 2016, ac yn unol ag arferion da, mae wedi bod yn destun adolygiad.

3. Mae'r Strategaeth wedi cael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r arferion a'r gweithdrefnau cyfredol.

**ARGYMHELLION**

4. Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Strategaeth Cronfeydd Ariannol sydd yn Atodiad 1, fel sail i reoli'r cronfeydd defnyddiadwy sydd gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

**SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

5. Cafodd yr adroddiad ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 a bu i aelodau'r Pwyllgor argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cymeradwyo'r adroddiad.

**CEFNDIR**

6. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn wahanol i awdurdodau lleol eraill oherwydd mae'n cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru, felly nid yw'n awdurdod sy'n codi praesept nac yn bilio.

7. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddeddfu 'Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub Cyfunol (Amrywio) (Cymru) 2009' er mwyn cydnabod y baich posibl ar gyllidebau cynghorau petai'r Awdurdod yn gofyn am gyfraniad ychwanegol mewn unrhyw flwyddyn. Mae hyn wedi darparu sail statudol i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru allu dal cronfeydd wrth gefn.

8. Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn rhan hanfodol o reoli materion ariannol yr Awdurdod, ac mae wedi sicrhau bod modd lleihau'r angen i ddiwygio'r cyfraniadau mewn unrhyw flwyddyn.

**GWYBODAETH**

9. Mae'r Strategaeth Cronfeydd Ariannol i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'n nodi manylion y cronfeydd sy'n cael eu dal ac mae'n dogfennu'r broses ar gyfer adolygu'r cronfeydd ac adrodd yn eu cylch.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Drwy ddal cronfeydd wrth gefn, gall yr Awdurdod gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor, sef:<br>• Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd;<br>• Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well er mwyn i weithgareddau ataliol ac ymateb brys allu parhau i fod ar gael pryd a ble y mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg |
| Cyllideb | Cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy presennol yw £1.82m |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb refeniw fantoledig. Gallai hyn gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer ymrwymiadau sy'n hysbys. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod yn briodol, a'u hadrodd i'r Aelodau. Mae hyn yn cynnwys symudiadau yn y cronfeydd. |

# Strategaeth Cronfeydd Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Nid yw'r ddogfen hon yn cael ei rheoli ar ôl iddi gael ei hargraffu. Cyn ei defnyddio, mae'r sawl sy'n ei defnyddio yn gyfrifol am wirio mai dyma'r fersiwn gyfredol.

## 1.0 Y CRONFEYDD SY'N CAEL EU DAL

Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn cadw cronfeydd wrth gefn yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol sy'n arferol. Bydd yr Awdurdod yn ceisio osgoi defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu diffyg cyffredinol yn y gyllideb refeniw net, oherwydd mae sefyllfa ariannol o'r fath yn anghynaliadwy.

Ni fydd yr Awdurdod yn cadw cronfeydd rhag ofn, ac eithrio'r rhai yr adroddir eu bod yn gronfeydd ariannol wrth gefn.

Yn ogystal â chronfa gyffredinol, bydd yr Awdurdod hefyd yn dal cronfa a glustnodwyd ar gyfer pwrpas penodol pan fo angen hynny er mwyn talu costau cyfyngedig unigol sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau neu fentrau penodol.

## 2.0 ADRODD YNGHYLCH CRONFEYDD

Bydd y dasg o adrodd ynghylch y cronfeydd wrth gefn yn y datganiadau ariannol yn bodloni'r codau ymarfer cyfrifyddu presennol sy'n gymwys i'r Awdurdod.

Er mwyn sicrhau tryloywder a chraffu, bydd adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac sy'n cynnwys rhagor o fanylder, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod wrth gytuno ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac wrth adrodd ynghylch yr alldro ariannol am y flwyddyn ariannol flaenorol.

Wrth adrodd ynghylch yr alldro ariannol am y flwyddyn flaenorol, caiff yr wybodaeth ganlynol ei darparu:

- Pwrpas y gronfa
- Y sail ar gyfer asesu digonolrwydd
- Trosglwyddiadau i mewn ac allan o gronfeydd

## 3.0 CYFRIFOLDEB A DIRPRWYO

Bydd y gwaith o greu, dileu, asesu digonolrwydd a throsglwyddiadau i mewn/allan o'r cronfeydd yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yn yr Awdurdod.

Bydd y Swyddog Adran 151 yn asesu pa mor ddigonol yw'r cronfeydd, a hynny o leiaf unwaith y flwyddyn, fel rhan o'r broses o gau'r cyfrifon.

Bydd y Swyddog Adran 151 yn adrodd i'r Awdurdod fel y bo'r gofyn o fewn y Strategaeth hon.

## 4.0 SWYDDOGAETH Y SWYDDOG ADRAN 151

Ar hyn o bryd, nid oes swyddogaeth uniongyrchol i Weinidogion Cymru bennu na chynghori ar y lefel briodol o gronfeydd sydd gan Awdurdodau penodol. Mater i'w benderfynu ar lefel sefydliadol yw hyn, a rhaid ystyried y risgiau, yr amgylchiadau a'r cynlluniau penodol sy'n arferol ar y pryd.

O fewn y fframwaith statudol a rheoleiddiol presennol, cyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 yw cynghori'r Awdurdod ynghylch lefel y cronfeydd y dylid eu dal ac i sicrhau bod protocolau clir yn bodoli ar gyfer eu sefydlu a'u defnyddio.

## 5.0 CRONFEYDD DEFNYDDIADWY

Caiff yr Awdurdod ddal Cronfeydd Defnyddiadwy ar gyfer tri phrif bwrpas:

- Balans digonol i helpu i arbed rhag effaith llif arian anwastad ac i osgoi gorfod benthyca'n ddiangen dros dro – mae hyn yn rhan o'r cronfeydd cyffredinol;
- Cronfa wrth gefn i leddfu effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau – mae hyn hefyd yn rhan o gronfeydd cyffredinol; neu
- Ffordd o gynyddu arian a elwir yn aml yn gronfeydd a glustnodwyd, a hynny er mwyn ateb gofynion sy'n hysbys neu rai a ragwelir; rhoddir cyfrif ar wahân am gronfeydd a glustnodwyd, ond yn gyfreithiol maent yn rhan o'r Gronfa Gyffredinol.

| Categori o Gronfa a Glustnodwyd | Rhesymeg |
|---|---|
| Symiau a neilltuwyd ar gyfer cynlluniau mawr, megis datblygiadau cyfalaf neu brynu asedau, neu i ariannu gwaith adsefydlu pwysig a blaenoriaethau'r Gwasanaeth. | Pan fo gwariant wedi'i gynllunio mewn cyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol, peth darbodus yw neilltuo adnoddau ymlaen llaw. |
| Cronfeydd yswiriant. | Gan nad oes unrhyw sail statudol, caiff symiau sy'n cael eu dal i gwrdd ag ymrwymiadau posibl ac annisgwyl eu hadrodd fel cronfeydd a glustnodwyd pan nad yw'r ymrwymiadau hyn yn bodloni'r diffiniad o ddarpariaeth o dan ofynion Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37, sef *Darpariaethau, Asedau ac Ymrwymiadau Annisgwyl.* |
| Cronfeydd ar gyfer grantiau refeniw, a rhoddion na chafodd eu gwario. | Pan nad oes unrhyw amodau i grantiau refeniw neu roddion, neu pan fo'r amodau wedi cael eu bodloni a'r gwariant heb ddigwydd eto, caiff y symiau eu dal fel cronfeydd a glustnodwyd. |

Hefyd, caiff yr Awdurdod ddal Cronfa Derbyniadau Cyfalaf. Mae'r gronfa hon

yn dal yr elw ar ôl gwerthu asedau nad ydynt yn gyfredol, ac ni chaiff y gronfa ei defnyddio heblaw ar gyfer y pwrpasau a nodir yn "Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 fel y'u diwygiwyd", sef:

- I dalu gwariant cyfalaf;
- I ad-dalu prifswm unrhyw swm a fenthyciwyd; neu
- I dalu unrhyw rwymedigaeth ar gyfer trefniant credyd, heblaw unrhyw rwymedigaeth y mae'n rhaid eu rhoi ar gyfrif refeniw, yn unol â'r arferion priodol.

Caiff yr Awdurdod wneud darpariaeth hefyd ar gyfer gwario yn unol â'r diffiniadau llym sydd yn y codau ymarfer ar gyfer cyfrifyddu. Mae'r rhain yn ymwneud â phan fo rhwymedigaethau penodol yn bodoli ar ddyddiad y fantolen a bod modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth.

## 6.0 CRONFEYDD ANNEFNYDDIADWY

Mae cronfeydd annefnyddiadwy yn deillio o addasiadau cyfrifyddu technegol yn sgil rhyngweithio deddfwriaeth ac arferion cyfrifyddu priodol. Gellir sefydlu'r rhain naill ai er mwyn cofnodi enillion ailbrisio neu fel addasiad er mwyn ail-gysoni gofynion cyfrifyddu a statudol.

Nid yw'r cronfeydd hyn yn cael eu cefnogi gan adnoddau, ac ni ellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall. Rhoddir disgrifiad isod o'r cronfeydd defnyddiadwy cyffredin:

| | |
|---|---|
| Cronfa Ailbrisio | Mae'r gronfa hon yn cofnodi enillion heb eu gwireddu yng ngwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar. Mae'r gronfa'n cynyddu pan fo asedau'n cael eu hailbrisio am i fyny, ac mae'n gostwng wrth i asedau gael eu dibrisio neu pan fo asedau'n cael eu hailbrisio am i lawr neu pan geir gwared ar asedau. Dim ond enillion ailbrisio a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y Gronfa, sef y dyddiad pryd cafodd y Gronfa ei chreu. Mae enillion cronedig a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi cael eu cydgrynhoi yn y fantolen ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf. |
| Cyfrif Addasu Cyfalaf | Mae'r gronfa hon yn ailgysoni'r gwahanol gyfraddau y mae'r asedau yn cael eu dibrisio o dan arferion cyfrifyddu priodol ac yn cael eu hariannu drwy'r system rheolaethau cyfalaf. Mae'r statud yn mynnu bod y taliad i'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei bennu gan y system rheolaethau cyfalaf. Er enghraifft, mae'r balans credyd ar y Cyfrif yn dangos bod gan Awdurdod fuddsoddiad cyfalaf wedi'i ariannu'n gyffredinol cyn derbyn buddion y buddsoddiad hwnnw. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd mewn Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad pryd cafodd y Gronfa Ailbrisio ei chreu er mwyn dal enillion o'r fath. |

| | |
|---|---|
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau | Mae'r gronfa hon yn ailgysoni'r taliadau a wnaed yn y flwyddyn i wahanol gynlluniau pensiwn statudol yn unol â gofynion y cynlluniau hynny, a'r newid net yn rhwymedigaeth ariannol yr Awdurdod dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19, sef *Buddion Cyflogeion,* ar gyfer yr un cyfnod. Gwneir trosglwyddiad i mewn neu allan o'r gronfa bensiynau er mwyn sicrhau bod y taliad i'r Gronfa Gyffredinol yn adlewyrchu'r swm i'w chodi drwy drethu. Er enghraifft, mae'r balans debyd yn y Gronfa yn dangos bod awdurdod wedi gwneud ymrwymiadau i ariannu pensiynau y mae'r Llywodraeth wedi caniatáu iddo eu hariannu o gyfraniadau i'w gwneud mewn blynyddoedd i ddod. |
| Cyfrif Absenoldebau Cronedig | Mae'r cyfrif hwn yn mewnsugno'r gwahaniaethau a fyddai'n codi fel arall ym malans y Gronfa Gyffredinol yn sgil cronni oherwydd absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn y flwyddyn, e.e. hawl i seibiant blynyddol wedi'u cario drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar y Gronfa Gyffredinol yn cael eu niwtraleiddio drwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif. |
| Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | Mae'r cyfrif hwn yn ailgysoni'r gwahanol gyfraddau y mae enillion a cholledion (megis y premiymau ar ad-dalu dyled yn gynnar) yn cael eu cydnabod dan arferion cyfrifyddu priodol, a rhaid iddynt, dan statud, ddod o'r Gronfa Gyffredinol. Er enghraifft, mae'r balans debydau ar y Cyfrif yn dangos bod yr Awdurdod wedi cael treuliau ar fenthyciadau ac mae'r Llywodraeth wedi caniatáu iddo wasgaru'r rheini dros flynyddoedd i ddod. |

Gellir hefyd greu cronfeydd yn y dyfodol pan fo datblygiadau mewn dulliau cyfrifyddu mewn awdurdodau lleol yn arwain at wahaniaethau mewn amseru rhwng yr incwm a'r gwariant, dan arferion cyfrifyddu priodol ac o dan statud neu reoliad.

## 7.0 ADRODD YNGHYLCH CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r *Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y Cod), sy'n seiliedig ar y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), yn pennu'r gofynion adrodd ar gyfer cronfeydd wrth gefn. Mae'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd yn cyflwyno'r symudiad yng nghronfeydd yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'u dadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy ac yn gronfeydd annefnyddiadwy.

Mae'r Cod yn argymell bod y cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu hadrodd ar wynebddalen y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd. Mae'r gyfundrefn adrodd statudol, a'r rheolaeth ariannol effeithiol, yn tanategu'r angen i gael trefniadau clir a thryloyw ar gyfer adrodd mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn, ac mae'r arferion gorau yn awgrymu y dylid adrodd yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob cronfa a glustnodwyd:

- y rheswm dros y gronfa;
- sut a phryd gellir defnyddio'r gronfa;
- y gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r gronfa; a
- mecanweithiau adolygu.

Dylai'r adroddiad ar y gyllideb i'r Awdurdod gynnwys y canlynol:

- unrhyw achos o ddefnyddio'r gronfa neu ychwanegu ati, gan gynnwys unrhyw achos penodol o ddefnyddio'r gronfa er mwyn talu costau rheolaidd;
- datganiad gan y Swyddog Adran 151 ynghylch pa mor ddigonol yw'r cronfeydd cyffredinol a'r darpariaethau.

## 8.0 PA MOR DDIGONOL YW'R CRONFEYDD

Er mwyn asesu pa mor ddigonol yw'r cronfeydd wrth osod y gyllideb, bydd y Swyddog Adran 151 yn ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Bydd yr asesiad o'r risgiau yn cynnwys risgiau allanol, megis materion a allai effeithio ar barhad busnes, yn ogystal â risgiau mewnol, er enghraifft y gallu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gynllunnir.

Mewn termau ariannol, bydd y risgiau canlynol yn cael eu hystyried:

| | |
|---|---|
| Ymdrin â chwyddiant a chyfraddau llog | • Sefyllfa ariannol gyffredinol yr awdurdod<br>• Cynnydd ym mhrisiau rhai nwyddau, ac a yw'r cronfeydd yn ddigonol i ddelio ag unrhyw amrywiadau annisgwyl mewn prisiau.<br>• Sut bydd y newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio ar fenthyciadau neu incwm a roddwyd yn y Strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. |
| Amcangyfrifon o lefel ac amseriad y derbyniadau cyfalaf | • Mae hanes yr Awdurdod ym maes rheoli'r gyllideb a rheolaeth ariannol yn cynnwys cadernid y cynlluniau tymor canolig.<br>• Sut mae'r farchnad eiddo yn effeithio ar gael y derbyniadau, o ran yr amseriad a'r swm. |
| Ymdrin â phwysau oherwydd galw | • Gallu'r Awdurdod i reoli pwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn, a'r strategaeth ar gyfer rheoli'r galw a'r modd o ddarparu gwasanaethau yn y tymor hir. |

| | |
|---|---|
| Ymdrin ag arbedion effeithlonrwydd/enillion cynhyrchiant arfaethedig | • Cryfder yr wybodaeth ariannol a'r trefniadau adrodd. |
| Risgiau ariannol sydd ymhlyg mewn unrhyw bartneriaethau ariannu newydd arwyddocaol, trefniadau contractau allanol pwysig, neu ddatblygiadau cyfalaf mawr | • Yr hawl sydd gan yr Awdurdod i drosglwyddo arian, a'r gweithdrefnau ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer tanwariannau/gorwariannau yn y gyllideb, ar lefel yr awdurdod ac ar lefel yr adrannau.<br>• Mesurau rheoli risg o ran partneriaethau, gan gynnwys ystyried sut caiff risg ei ddyrannu.<br>• Mae darpariaethau contractau wedi'u dylunio i ddiogelu sefyllfa'r awdurdod os bydd problemau'n deillio o drefniadau contractau allanol. |
| I ba raddau y mae cronfeydd wrth gefn, grantiau llywodraeth ac arian arall ar gael i ddelio â digwyddiadau annisgwyl pwysig, a pha mor ddigonol yw'r darpariaethau | • Dylid defnyddio asesiadau risg wrth gael cydbwysedd rhwng lefelau premiymau yswiriant a chronfeydd wrth gefn. |
| Yr hinsawdd ariannol cyffredinol y mae'r awdurdod yn agored iddo | • Ffactorau allanol, megis newidiadau mewn ariannu yn y dyfodol, y tirlun gwleidyddol ac amodau economaidd y byd. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 15**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **15 Mawrth 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Colin Everett, Clerc yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens, Dirprwy Glerc**<br>**01745 535286** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgorau Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Fel mater o lywodraethu corfforaethol da, mae'r Pwyllgor Safonau yn darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ynghylch ei weithgareddau yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Felly, mae unfed adroddiad blynyddol ar bymtheg (16eg) y Pwyllgor wedi'i atodi er mwyn i'r Aelodau ei ystyried.

**ARGYMHELLION**

4 Bod yr Aelodau'n nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau am 2020/21.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU 2020/21**

## Cefndir

Dyma unfed adroddiad blynyddol ar bymtheg (16eg) y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021. Yn ôl y ddeddfwriaeth, rhaid i Bwyllgorau Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo'r statud yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am Aelodau ac i gynnal neu oruchwylio ymchwiliadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod.

## Aelodaeth

Fe wnaeth ail gyfnod Mr Antony P Young yn y swydd ddod i ben ym mis Mawrth 2020, felly nid oedd yn gymwys i barhau ar y Pwyllgor am gyfnod arall. Nid oedd unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r aelodau annibynnol.

O ran cynrychiolwyr yr ATA ar y Pwyllgor, cytunwyd y byddai'n ddoeth, gan fod y Cyng. Dylan Rees wedi'i benodi'n Ddirprwy Gadeirydd yr ATA, i gael aelod arall o'r Awdurdod i sefyll ar y Pwyllgor; bydd y Cyng. Michael Dixon yn ymuno â'r Cyng. Owen Thomas ar y Pwyllgor i gynrychioli'r ATA. Felly, dyma aelodaeth y Pwyllgor Safonau:

<u>Aelodau Annibynnol</u>
Sally Ellis 01/01/18 – 31/12/2021 (yn gymwys am ail gyfnod) (Dirprwy Gadeirydd)
Julia Hughes 01/01/18 – 31/12/2021 (yn gymwys am ail gyfnod) (Cadeirydd)
Gill Murgatroyd 01/09/19 – 31/08/23
Gareth Pritchard 01/09/19 – 31/08/23

<u>Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Owen Thomas (19/06/18 tan etholiadau nesaf y cynghorau)
Y Cynghorydd Michael Dixon (09/11/20 tan etholiadau nesaf y cynghorau)

## Presenoldeb

Cafodd cyfarfod ei gynnal ar 17 Medi 2020, drwy Zoom. Cafodd Julia Hughes ei hethol yn Gadeirydd, a chafodd Sally Ellis ei hethol yn Ddirprwy Gadeirydd. Roedd Gill Murgatroyd, Gareth Pritchard a'r Cyng. Owen Thomas yn bresennol.

Cafodd ail gyfarfod ei gynnal ar 25 Chwefror 2021, drwy Zoom. Roedd yr holl aelodau'n bresennol.

**Y Materion a Drafodwyd**

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2020, bu'r Pwyllgor yn adolygu'r canlynol:

- Presenoldeb aelodau'r ATA yn y cyfarfodydd. Tynnwyd sylw at y ffaith fod methu â mynychu cyfarfodydd yn achosi problem arwyddocaol i'r Awdurdod gan ei fod yn lleihau ei gapasiti ac yn creu bylchau yn nealltwriaeth yr Aelodau, a gall gymryd amser i oresgyn hynny. Mae'r Dirprwy Glerc wedi gweithio gyda'r cynghorau cyfansoddol i wella'r presenoldeb. Yn ystod y flwyddyn, roedd nifer y cyfarfodydd wedi gostwng yn sylweddol oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd i reoli pandemig y coronafeirws. Bydd y symud i gyfarfodydd o bell/rhithiol yn lleihau'r angen i'r aelodau deithio, felly bydd yn haws i'r aelodau gyflawni eu dyletswyddau ar yr Awdurdod
- Polisi'r Awdurdod ynghylch rhoddion a lletygarwch, sy'n ymddangos i fod yn cyd-fynd â pholisïau eraill o'r fath yn yr awdurdodau tân ac achub eraill a'r prif gynghorau yng Nghymru
- Rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Safonau yn yr awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru. Roedd eu rhaglenni gwaith nhw eisoes yn debyg i'w raglenni gwaith ei hun, ac mae'r pwyllgor wedi cytgordio rhagor ar ei raglen waith fel ei bod yn fwy cyson, gan ystyried adroddiadau ychwanegol fel y bo'r angen.

Cyfarfu'r Pwyllgor eto ar 25 Chwefror 2021. Yn y cyfarfod hwn, bu'r Aelodau'n ystyried y materion a ganlyn:

- Ymgynghoriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch y Canllawiau Diwygiedig ar y Cod Ymddygiad
- Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru
- Coflyfr ac adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Pwyllgor safonau ar y cyd
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Pwyllgor wedi edrych hefyd ar adroddiadau cyhoeddus o bwys i weld a oes unrhyw argymhellion neu achosion o arferion da y gallai'r Awdurdod eu mabwysiadu. Bu'n edrych yn benodol ar yr adroddiad i'r Bomio ym Manceinion, ynghyd â'r adroddiad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar fater y Gyfundrefn Foesegol yn Lloegr. Mae wedi gwneud argymhellion i newid y cod ymddygiad yn seiliedig ar adroddiad yr un olaf, ac mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r cod ymddygiad hwnnw.

**Hyfforddiant**

Mae'r pwyllgor wedi cytuno y bydd yn cael hyfforddiant ymhob cyfarfod ar faterion yn ymwneud â'i gylch gorchwyl.

**Blaengynllun Gwaith**

Mae'r Pwyllgor wedi sefydlu blaenraglen waith ar ei gyfer ei hun er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei gylch gorchwyl a'i fod yn ystyried pob eitem y mae angen iddo ymdrin â nhw o fewn blwyddyn. Mae'r eitemau sydd i ddod yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y sesiwn hyfforddi rheolaidd (y cyfeirir ati uchod), adborth o sylwadau'r Aelodau Annibynnol o gyfarfodydd, ystyried a ddylid creu Pwyllgor Safonau ar y cyd ag awdurdod arall yng Ngogledd Cymru (naill ai gyngor neu awdurdod parc), a pharhau i adolygu presenoldeb.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal adolygiad treiglol o'r codau a'r protocolau sydd yn ei gylch gorchwyl fel bod pob un yn cael ei ystyried o leiaf unwaith ymhob un o dymhorau'r Awdurdod. Mae'r rhaglen honno wedi cael ei chwblhau yn y tymor hwn, ond bydd yn ailddechrau ar ôl yr etholiadau yn 2022.

**Cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub**

Ni chafwyd unrhyw gwynion am Aelodau'r ATA yn ystod y cyfnod hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

Caiff cyllideb y Pwyllgor Safonau ei rheoli drwy un pennawd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Ers 2012, caiff aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau hawlio cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychir. Ar gyfer mynychu cyfarfodydd yn y flwyddyn ariannol hon, hawliwyd cyfanswm o £850.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn argymell bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad blynyddol am 2020/21.